Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 5 RHAGFYR 2013**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**THURSDAY, 5 DECEMBER 2013**

**at 2.00pm**

**R H A G L E N**

**Cyflwyniad - Tour de Môn**
Bydd y Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth a'r Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden yn cyflwyno fideo fer o Ras Feicio Tour de Môn a gynhaliwyd ar 1 Medi 2013, ynghyd ag adolygiad o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar yr Ynys yn 2013.

**1 <u>COFNODION</u>**

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 10 Hydref 2013 (11:30am) (Arbennig)
- 10 Hydref 2013 (2:00pm)

**2 <u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

**3 <u>DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR.</u>**

**4 <u>CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD</u>**

- Cyflwyno'r cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Bob Parry OBE i Arweinydd y Cyngor:

  *"A ydyw y Cyngor yn fodlon sefydlu panel tros-bleidiol i fod yn barod i ymateb i adroddiad Williams ar dorri lawr y nifer o gynghorau yng Nghymru?"*

- Cyflwyno'r cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Bob Parry OBE i'r Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol:

  *"Faint o denantiaid tai cyngor sydd wedi cael eu troi o'u cartrefi oherwydd methu â thalu'r dreth ystafell wely?"*

- Cyflwyno'r cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Trevor Ll Hughes i'r Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol:

  *"Buaswm yn hoffi gwybod mewn manylder beth yw'r diweddaraf ynghlwm â chau cartrefi henoed y Cyngor Sir yn Ynys Môn yn arbennig cartref Garreglwyd, Caergybi gyda manylion o wybodaeth cyfarfodydd gyda staff y cartref i egluro'r sefyllfa iddynt".*

**5 COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYAETH**

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth Ynys Môn a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2013.

**6 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2013-17**

(a) Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.
(b) Cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2013.

**7 AMSERU CYFARFODYDD**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.

**8 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.**– I DDILYN**

**9 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD (PARA 3.5.3.15.5) AC I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO (ADRAN 4.6 Y CYFANSODDIAD)**

A) Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Rheoleiddio a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Hydref 2013

B) Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2013 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir "*bod y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylwyd arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn yn cael eu gwneud a bod awdurdod yn cael ei roi i Swyddogion wneud y newidiadau perthnasol i'r Cyfansoddiad".*

I ystyried yr uchod.

**10 GWNEUD Y NEWIDIADAU I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO (ADRAN 4.6 Y CYFANSODDIAD) YN BARHAOL**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 4 Tachwedd, 2013.

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2013 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir:-

- *"Ei fod yn gwneud y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor y manylir arnynt ym mharagraff 2.2.3 yr adroddiad yn rhai parhaol, sef egluro'r ceisiadau hynny gan swyddogion a chan berthnasau, aelodau a swyddogion y dylid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad;*

- *Peidio â gwneud yn barhaol y newidiadau i gyfyngu Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gymryd rhan yn y cyfarfod dim ond os ydynt wedi mynychu'r holl gyfarfodydd blaenorol ar yr eitem honno (gan gynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol).*

- *Peidio â gwneud yn barhaol y newidiadau sy'n rhwystro Aelod Lleol ar y Pwyllgor rhag pleidleisio, cynnig neu eilio cais yn ei ward".*

I roi ystyriaeth i’r uchod.

## 11 RHYBUDD A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

Cyflwyno’r Rhybudd o Gynnig Canlynol gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, wedi’i gydlofnodi gan y Cynghorwyr Bob Parry, OBE, Kenneth P Hughes, Dylan Rees, a Jim Evans.

*“Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi Rhyddid y Sir i’r Llynges Brydeinig a Chymdeithas y Llynges Fasnachol.*

*Mae hyn i gydnabod iddynt gadw’n ddiogel y ffyrdd mordwyo a’r fasnach sy’n bodoli rhwng y Deyrnas Gyfunol a Gweddill y Byd. Dylid ystyried y seremoni Rhyddfraint hon fel digwyddiad i gofio Rhyfel Mawr 1914-18 a Choffáu 70 o flynyddoedd ers Brwydr Môr Iwerydd.”*

I roi ystyriaeth i’r uchod.

## 12 DIRPRWYAETHAU

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno er gwybodaeth, adroddiad ynglŷn ag unrhyw newidiadau i’r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau’r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith neu’r Arweinydd ers y cyfarfod Cyffredin diwethaf (gweler Rheol 4.4.1.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2013 (11.30 am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, H E Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D R Hughes, Carwyn Jones a Dylan Rees |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Dim.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**4 AWDURDODI CYTUNDEB A CHYLCH GORCHWYL**

Cyflwynwyd – Cyflwyniad llafar ar adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr ynghylch cytundeb a chylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.

Yn dilyn trafodaeth faith ar y mater cynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad.

Ni chafodd y cynnig ei gario gyda chwech yn pleidleisio o blaid a 23 yn erbyn.

**PENDERFYNWYD**

**Gwrthod argymhellion y Prif Weithredwr a'r cyngor cyfreithiol allanol yn yr adroddiad.**

**Derbyn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Ymchwilio a Disgyblu a oedd wedi ei gynnwys o fewn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd 10 Hydref 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) a Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D R Hughes a Dylan Rees |

**CYFLWYNIADAU – GEMAU'R YNYSOEDD**

Cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor yr athletwyr canlynol fu'n llwyddiannus yn dilyn cystadlu yn y Gemau'r Ynysoedd yn Mermwda fis Gorffennaf 2013 ac yn y digwyddiadau saethyddiaeth yn Ynys Guernsey, gyda gwobr ar ran y Cyngor:-

Sarah Livett – Medal Arian –5000m Merched
Connor Laverty - Medal Efydd – Taflu'r maen Dynion
Sophie Lewis - Medal Efydd -100m Merched
Iolo Hughes – Medal Aur–5000m Dynion
Rheon Jones – Medal Arian –400m Clwydi Dynion
Aled Thomas, Connor Laverty, Chris Mcnaught, Michael Bland – Efydd Tim – 4x100m Dynion
Aled Thomas, Michael Bland, Chris Mcnaught, Rheon Jones - Efydd Tîm - 4 x 400m Dynion
Dyfrig Mon – Medal Efydd – Hwylio Rig Safon Laser
Eifion Môn - Medal Aur - Hwylio Rig Safon Laser
Bleddyn Môn - Medal Arian – Hwylio Rig Safon Laser
Mike Thorne, Dyfrig Mon, Bleddyn Mon, Eifion Mon – Medal Aur – Tim Hwylio

Nigel Mathers (Rheolwr Tîm a Chydlynydd Chwaraeon), Val Bamber, John Bamber, Richard Mathers - Medal Efydd - Tîm Saethyddiaeth
Val Bamber - Medal Efydd - Tîm Saethyddiaeth Bwa Compownd

## 1 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 16 Ebrill 2013 (Arbennig)
- 23 Mai 2013 (Arbennig)(10:00am)
- 23 Mai 2013 (11:00am)
- 23 Mai 2013 (Cyfarfod Blynyddol Cyntaf)(2:00pm)
- 30 mai 2013 (Cyfarfod Blynyddol wedi'i gohirio)
- 18 Mehefin 2013 (Arbennig)
- 15 Gorffennaf 2013 (Arbennig)
- 26 Medi 2013 (Arbennig)

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion o'r cyfarfodydd o'r Cyngor Sir.**

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr canlynol ddiddordeb yn eitemau 14/15 o'r cofnodion hyn ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y mater:-

Richard Owain Jones – perthynas teuluol – cymhorthydd amser cinio
Ieuan Williams – chwaer-yng-nghyfraith, gofalwr cartref
K.P.Hughes – yn perthyn i gyn aelod staff oedd yn ofalwr cartref
Llinos M.Huws – chwaer-yng-nghyfraith wedi gweithio fel cymhorthydd brecwast
Trefor Lloyd Hughes – ei wraig yn gweithio i'r Cyngor
Bob Parry, OBE – perthnasau yn gweithio i'r Cyngor.

## 3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR

Llongyfarchiadau i'r rhai o'r Ynys a fu'n llwyddiannus yr haf hwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, Sioe Môn a Sioe Amaethyddol Frenhinol – Llanelwedd.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion ysgolion uwchradd a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU a Lefel 'A'. Dymunwyd y gorau iddynt i'r dyfodol a phob llwyddiant i rai oedd yn cychwyn yn y colegau.

Estynwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Aled Morris Jones a dderbyniodd Aelodaeth Bywyd er Anrhydedd Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ystod yr haf. Derbyniodd yr aelodaeth er anrhydedd am ei waith fel cyn Ysgrifennydd y sioe.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd A. Morris Jones siarad gerbron y Cyngor ynglŷn â'r Ymgyrch Cofeb Gymreig yn Fflandrys. Dywedodd mai Cymru oedd yr unig genedl nad oedd â chofeb i rai oedd wedi eu lladd yn ystod Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd darn o dir wedi ei ddarparu gan ddinas Ypres, lle'r oedd Hedd Wyn wedi marw ar ôl ei glwyfo. Gofynnodd yn barchus i'r aelodau godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch yn eu Cynghorau Cymuned a Thref perthnasol. Roedd yn gwerthfawrogi ei bod yn amser anodd yn ariannol ond roedd un Cyngor Cymuned eisoes wedi addo £200 i'r apêl gyda Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cyfrannu at y targed o £90k.

Byddai draig ar ben cromlech yn cael ei dadorchuddio, fe obeithir fis Awst nesaf. Gofynnodd yn barchus hefyd i'r Arweinydd godi'r mater yng nghyfarfod nesaf Arweinyddion Gogledd Cymru, sef y dylai pob Cyngor Sir ystyried gwneud cyfraniad tuag at y gofeb.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Jeff Evans oedd a'i wraig a'i ferch heb fod yn dda ar hyn o bryd.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad llwyraf i'r Cynghorydd Carwyn Jones ar farwolaeth ei nain.

Estynnwyd cydymdeimlad hefyd â theulu Dr. Sian Owen, Archdderwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Ynys Môn, gyda'i hangladd wedi ei gynnal ddoe ac i deulu 7fed Marcwis Môn, George Charles Henry Victor Paget fu farw'n dawel yn ei gartref, Plas Newydd fis Gorffennaf, yn 90 oed.

Roedd yn drist clywed bod Mr. Hugh Astley, cyn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn wedi marw fore heddiw. Roedd yn cynrychioli ardal Llantrisant. Yn wreiddiol o Lanfair Caereinion, roedd yn ddiweddar wedi ymddeol i fyw ym Menllech. Roedd yn gyn Gadeirydd Undeb Ffermwyr Cenedlaethol Ynys Môn a hefyd yn gyn Lywydd Pwyllgor Da Byw Cymru. Roedd yn gyn Lywydd Sioe Amaethyddol Môn ac roedd ar y blaen yn y byd amaethyddol a gyda sefydliad y Ffermwyr Ifanc.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff oedd wedi dioddef profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o barch.

## 4 COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 27 Mehefin, 2013
- 23 Medi, 2013

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion o'r cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd.**

## 5 CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddeiseb i Gadeirydd y Cyngor gan UNSAIN gydag oddeutu 406 llofnod yn gwrthwynebu cau Caffi Môn. Dywedodd ymhellach y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar yr adolygiad a wnaed o gantîn y prif swyddfeydd.

**PENDERFYNWYD bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith i'w benderfynu.**

## 6 ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2012-13

Cafwyd adroddiad gan y Deilydd Portffolio - bod angen i'r Cyngor yn unol â rheoliadau a ryddhawyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 gynhyrchu adolygiad Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol yn adrodd am weithgareddau ac am y dangosyddion pwyllog a thrysorlys am 2012-13. Roedd yr adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a hefyd Gôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Pwyllog) ac yn cynnwys hefyd y perfformiad yn benthyca ac yn buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2013 ac wedi penderfynu derbyn ei gynnwys a'i gyfeirio i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad hwn a oedd wedi ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio.**

## 7 ADRODDIAD GWELLA – ADOLYGU PERFFORMIAD 2012-13

Cafwyd adroddiad gan y Deilydd Portffolio - Bod rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref yn flynyddol - yn dogfennu ac yn dadansoddi perfformiad y gorffennol dros y flwyddyn ariannol. Roedd y papur hwn yn delio â chynhyrchu'r Adroddiad Perfformiad 'Drafft' am 2012/13, a oedd yn edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor yn 2012/13 ac a gyflwynwyd fel crynodeb byr o'r prif benawdau oedd i'w gweld o fewn y ddogfen Adroddiad Perfformiad.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo cyn ei olygu'n derfynol a'i brawf ddarllen yn ystod Hydref 2013.

**PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth (Polisi) mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio a Rheolwr Busnes y Pwyllgor Gwaith i gwblhau gwaith golygu'r drafft uchod a phrawf ddarllen Adroddiad Perfformiad 2012/13 i'w gyhoeddi yn unol â'r amser cau statudol ddiwedd mis Hydref, 2013.**

## 8 ASESIAD GWELLA CYNGOR SIR YNYS MÔN – LLYTHYR 1

Adroddwyd gan Mr. Andy Bruce - Bod rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) adrodd yn ôl ar ei waith archwilio ac asesu i nodi a oedd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Roedd y cyflwyniad i'r Cyngor heddiw yn darparu'r casgliadau canlynol :-

- Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu dweud a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella o dan y Mesur gan nad oedd y Cyngor eto wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn hon.
- Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig, i waith a wnaed hyd yn hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, roedd y Cyngor yn debygol o gydymffurfio gyda'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Mae'r Cyngor yn awr mewn gwell lle i ddarparu gwelliannau cynaliadwy hirdymor ac mae'r cynnydd y mae eisoes wedi ei wneud wedi golygu bod ymyrraeth Llywodraeth Cymru wedi dod i ben fis Mai 2013.
- Mae rhaglen wella uchelgeisiol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan fframwaith rheoli rhaglen briodol ac mae'n adlewyrchu'r ymgynghori a fu gyda dinasyddion Ynys Môn.
- Er yr heriau sylweddol a pharhaol, mae'r Cyngor yn rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn gyfrifol.
- Gwelwyd gwelliant mewn nifer o wasanaethau allweddol ond mae yna wendidau mewn rhai meysydd a bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud.

- Ymgysylltodd y Cyngor yn dda gyda Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein hastudiaeth wella yn ddiweddar ar effeithlonrwydd sgriwtini.
- Gwelwyd cynnydd cyson gyda gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion i wella a nodwyd yn asesiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn diweddaru ei safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr pellach erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys y Llythyr Asesu Perfformiad.**

**9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd – Adroddiad Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd ar y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn dilyn lleihad yn aelodaeth y grwp a sefydlu pwyllgorau ychwanegol.

Roedd y newidiadau arfaethedig wedi eu hamlygu ar y matrics oedd ynghlwm i'r adroddiad. Roedd y matrics hefyd yn dangos y ddau bwyllgor newydd a sefydlwyd gan y Cyngor ar 26 Medi i fod â chydbwysedd gwleidyddol - Pwyllgor Ymchwilio a Phwyllgor Disgyblu. Roedd hyn yn cynyddu cyfanswm nifer y seddi oedd ar gael i'w dyrannu o 114 i 120. Yn unol ag egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol a chonfensiynau lleol, byddai un sedd yn cael ei dyrannu ar bob un o'r ddau bwyllgor newydd hyn i'r Grŵp Annibynnol ac i Blaid Cymru ac 1 i Grŵp Llafur ar un o'r Pwyllgorau hynny. Trwy gonfensiwn byddai'r sedd oedd ar ôl angen ei dyrannu i aelod digyswllt er mwyn cyrraedd uchafswm nifer y seddi oedd ar gael i'w dyrannu (120).

Yn unol â phrotocolau rheolaeth wleidyddol, roedd y trefniadau rheolaeth wleidyddol newydd [gan gymryd i ystyriaeth y lleihad yn aelodaeth y Grŵp Annibynnol a sefydlu 2 Bwyllgor newydd] wedi ei drafod gydag Arweinyddion y Grwpiau.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a'r nifer o seddi a ddyrannwyd i bob un o'r grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a niferoedd y seddi a roddir trwy ddefod ac ymarfer i'r Aelodau nad ydynt yn destun cydbwysedd gwleidyddol fel oedd wedi ei nodi yn y matrics.**

2. **Yn unol ag argymhelliad 1 uchod, bod yr Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion y Grwpiau yn penderfynu ar y dyraniad o seddau i Aelodau Ddigyswllt yn codi o'r newidiadau hyn ac yn hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor o hynny.**

3. **Bod cais i Arweinyddion Grwpiau ddarparu manylion o aelodaeth y Pwyllgorau i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor mor fuan ac oedd yn bosibl yn unol â'r newidiadau oedd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.**

**10 DARLLEDU CYFARFODYDD**

Cafwyd adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr TGCh – Bod gweddarlledu cyfarfodydd wedi ei gysylltu i'r ddarpariaeth o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gryfhau democratiaeth leol; y bwriad oedd cryfhau strwythurau a gwaith Llywodraeth Leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod pob Cyngor lleol yn estyn allan ac yn ymgysylltu gyda phob adran o'r gymuned y maent yn ei

gwasanaethu. Nid oedd gweddarlledu yn anghenraid deddfwriaethol ond roedd yn cael ei gefnogi'n gryf gan Lywodraeth Cymru.

Byddai gweddarlledu yn caniatáu i gyfarfodydd o'r Cyngor fod ar gael i'w weld trwy gyfryngau ffrydiol. Byddai'r wefan yn caniatáu i'r cyhoedd weld y cyfarfodydd yn fyw neu yn nes ymlaen drwy'r gwefannau drwy archif, a'r cyfan byddai'n rhaid i'r gynulleidfa ei gael fyddai dyfais gyda chysylltiad i'r rhyngrwyd. Roedd rhyngwyneb gyda systemau rheoli Modern.gov yn cael ei ystyried i hwyluso ymgysylltu.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried y materion canlynol:

- Manteision
- Goblygiadau adnoddau
- Staffio ac Aelodau
- Risgiau

**PENDERFYNWYD:**

- **Canlyn ymlaen gyda Gweddarlledu cyfarfodydd am gyfnod peilot o 2 flynedd er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru;**

- **Awdurdodi'r Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd a Rheolwr TGCh i gaffael yr offer angenrheidiol yn seiliedig ar ateb lletyol.**

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â mynediad o bell fel oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad.**

**11 CYTUNDEB DARPARU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL WEDI EI ADOLYGU**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer Cytundeb Darparu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn cael caniatâd y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Pan gymeradwywyd yr amserlen newydd gan y ddau Gyngor ac yna ei gefnogi gan y Llywodraeth, byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y ddau Gyngor a'i osod mewn llefydd cyhoeddus, fel llyfrgelloedd cyhoeddus lleol a swyddfeydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo amserlen ddiwygiedig ar gyfer Cytundeb Darparu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y bydd yn rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w arwyddo.**

**12 DIRPRWYAETHAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo yn ymwneud â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Arweinydd ers y cyfarfod cyffredin diwethaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**13 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna**

**Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

## 14 PRAWF DIDDORDEB CYHOEDDUS - HAWLIAD TÂL CYFARTAL

Ystyriwyd y cynnwys gan y Cyngor.

## 15 HAWLIAD TÂL CYFARTAL

Cyflwynwyd – Diweddariad yn llafar ar y cynnydd gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol).

Cafwyd cyngor cyfreithiol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) yn nodi a ddylai aelodau ddatgan diddordeb ai peidio yn y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod awdurdod yn cael ei roi i swyddogion i barhau i negodi'r hawliau tâl cyfartal yn unol â'r opsiwn a ffefrir ac a drafodwyd yng nghyfarfod heddiw.**

- **Bod awdurdod yn cael ei roi i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i wneud cais ar fyrder am y cronfeydd cyfalafu perthnasol i Lywodraeth Cymru.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Prif Weithredwr<br><br>Pwyllgor Gwaith: Y Cynghorwyr R. Dew, K.P. Hughes, Aled M. Jones, Alwyn Rowlands.<br><br>Cadeirydd Sgriwtini Corfforaethol: Y Cynghorydd R. Meirion Jones.<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy;<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes;<br>Cyfarwyddwr Cymuned;<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau),<br>Rheolwr Gwella Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant (JD). |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn),<br>Mr. Geraint Rees (Bwrdd Adfer Addysg),<br>Mr. Marc Roberts (Arolygwr Awdurdod Lleol, AGGCC). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones.<br>Mr. Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru). |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w ddatgan.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodir uchod.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 23 Medi 2013.

**4. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn manylu ar waith y Bwrdd Adfer hyd at, ac yn cynnwys mis Medi, ac yn amlinellu'r rhaglen waith i'r dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod yr adroddiad yn amlinellu perfformiad a chynnydd yr awdurdod yn erbyn y cynllun gweithredu yn dilyn archwiliad Estyn.

Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (disgyblion 14-16 oed) yn cael ei nodi. Y dangosydd pwysicaf yw'r trothwy L2+ (5 gradd A* - C yn cynnwys Mathemateg a naill ai Cymraeg neu Saesneg). Mae gwelliant y flwyddyn hon yn y trothwy L2+ tua 1%, a mynegodd y Cyfarwyddwr ei fod ychydig yn siomedig gyda'r cynnydd bychan hwn. Fodd bynnag mae hyn oll yn gynnydd o tua 5.3% ers 2011, o'i gymharu â chynnydd cenedlaethol o 1.8%. Sicrhawyd y gwelliant hwn er y perfformiad siomedig mewn Mathemateg yn un ysgol ac mewn Saesneg mewn ysgol arall. Mae'r gwelliant yn y dangosyddion eraill yn bur dda fel oedd yn cael ei nodi yn y siart oedd yn yr adroddiad. Mynegodd y Cadeirydd y byddai, fel y Deilydd Portffolio Addysg, yn herio'r Adran i gynyddu'r L2+ yng nghyfnod 2013/14.

Roedd presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf o 90.9% (2010/11), 92.2% (2011/12) i 93.2% (2012/13). Mae hyn wedi gwella sefyllfa gymharol Ynys Môn o'r 18fed yng Nghymru yn 2010/11 i'r 7fed yn 2012/13. Mae perfformiad Ynys Môn yn awr 0.6% uwchben y cyfartaledd Cymreig a dim ond 0.4% y tu ôl i'r awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg sef y 7 argymhelliad o Adroddiad Estyn ym Mai 2012 a dangosodd bod gwaith ar yr holl dasgau yn cydymffurfio gyda'r amserlen. Pwysleisiodd mai asesiad y Swyddog Dysgu Gydol Oes oedd hwn yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn), annerch y cyfarfod. Rhoddodd yr Athro Ainscow adroddiad manwl ar waith y Bwrdd Adfer ers Tachwedd 2011 gan ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei fod am newid natur y Bwrdd Adfer ar gyfer y cyfnod nesaf i gydnabod ei gyflawniadau. Dywedodd bod hyn yn dangos felly bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud ym Môn i gyfarfod â disgwyliadau'r Adolygiad. Bu cydweithrediad yr Awdurdod gyda'r Bwrdd Adfer yn broses lwyddiannus iawn. Nododd y byddai'n sefyll i lawr fel Cadeirydd y Bwrdd Adfer .

Mae patrwm y gwelliannau o fewn y data yng nghyswllt ysgolion cynradd ac uwchradd ar yr Ynys ers 2011 i'w longyfarch. Mae yna yn awr arwydd clir bod cynnydd yn cael ei wneud ac mae yna deimlad o optimistiaeth y bydd y cynnydd hwn yn parhau mewn blynyddoedd i ddod. Blaenoriaeth y Bwrdd Adfer oedd cefnogi'r awdurdod i gyflawni'r targedau a osodwyd gan Estyn.

Bu'r Bwrdd Adfer hefyd â diddordeb yn natblygiadau tymor hirach yn system Addysg yr Awdurdod Lleol. Roedd yr Athro Ainscow yn ystyried mai'r targed i'r awdurdod yw bod yn esiampl i bawb o fewn y system addysg yng Nghymru a thu hwnt. Amlygodd y cyswllt cymunedol cryf sydd ar yr Ynys gyda hynny yn fantais fawr yn y system addysg. Nododd ymhellach bod y Bwrdd Adfer wedi nodi 5 Pennaeth llwyddiannus ar yr Ynys i ddod yn arweinwyr yn nhermau gwelliannau addysgol ym Môn. Maent wedi gallu creu strategaeth bwerus ac wedi darparu arweiniad gyda chefnogaeth yr Awdurdod Addysg Lleol i fynd â'r strategaeth yn ei blaen. Awgrymodd y dylid gwahodd un o'r Penaethiaid i'r Bwrdd hwn i egluro cyflawniadau'r strategaeth.

O fewn y 5 ysgol uwchradd ar yr Ynys, fe welwyd penodi Penaethiaid newydd yn ddiweddar. Maent yn awr yn cymryd camau ar y cyd a chyfrifoldeb i wneud yn siŵr y bydd yna well perfformiad yn 2014.

Cyfeiriodd yr Athro Ainscow at rôl y 'Consortia' yng Nghymru. Nododd bod gwrthdaro ynglŷn â rôl staff yr Awdurdod Addysg Lleol a rôl staff y Consortia a bod hyn yn dal i gael ei drafod yn genedlaethol.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Geraint Rees, Aelod o dîm y Bwrdd Adfer i annerch y cyfarfod. Eglurodd Mr Rees beth oedd ei rôl o fewn Llywodraeth Cymru a'i fod yn un o bedwar Swyddog oedd wedi eu secondio i weithio o fewn awdurdodau lleol yng nghyswllt y Consortia rhanbarthol ac Awdurdodau Addysg Lleol. Diolchodd i'r Athro Ainscow am ei waith ar y Bwrdd Adfer ac i'r Deilydd Portffolio Addysg blaenorol, Mr G O Parry MBE am ei waith aruthrol i wella'r ddarpariaeth addysgol ym Môn.

**PENDERFYNWYD**

- **Diolch i'r Athro Ainscow am ei gyfarwyddyd a'i arweiniad yn ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Adfer;**

- **I wahodd un o'r Penaethiaid a nodwyd i arwain y gwelliannau addysgol ym Môn i gyfarfod o'r Bwrdd hwn yn y dyfodol.**

## 5. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned mewn perthynas â'r uchod.

Rhoddodd y Rheolwr Gwella Gwasanaeth amlinelliad o gynnwys yr adroddiad gan nodi bod yna dystiolaeth, oedd yn cael ei gadarnhau yn y Llythyr Blynyddol (Drafft) Diweddar gan AGGCC, oedd yn nodi bod y gwasanaeth wedi cyflawni ac yn cynnal newid. Roedd fframwaith sylfaenol y tîm rheoli i bob pwrpas yn ei le, ynghyd â gwell prosesau a gweithdrefnau ac ar y cyfan, weithlu brwdfrydig. Fodd bynnag, oherwydd bod y gwasanaeth yn gymharol fychan, diffyg profiad ymysg y staff a'i bod yn anodd proffwydo'r galwadau ar y gwasanaeth, roedd risgiau i berfformiad y gwasanaeth yn parhau. Mae'r Tîm Rheoli yn gallu rhagweld llawer o'r materion ac, hyd yn oed gyda'r capasiti a'r adnoddau cyfyngedig, yn gallu cynllunio camau i fynd i'r afael â phroblemau mewn ffordd sydd nid yn unig yn cynnal cydlyniad y Gwasanaeth, ond hefyd yn sicrhau bod rheoli a chyfarfod â gofynion perfformiad yn parhau yn effeithiol.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), Y Cynghorydd K P Hughes bod cynnydd wedi ei weld o fewn y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod gwelliannau yn parhau o fewn y Gwasanaethau Plant.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod angen datrys y cynllun arfarnu swyddi ar fyrder yn y gwasanaeth hwn, fel y gellir parhau i recriwtio'r staff proffesiynol gorau i wneud y rôl bwysig hon yn yr awdurdod. Mae hyfforddi a mentora o fewn y gwasanaeth yn hanfodol.

Nododd Mr Mark Roberts (Arolygwr Awdurdod Lleol, AGGCC) bod yr adroddiad yn cyd-fynd ag Adroddiad Blynyddol AGGCC gyda'r un risgiau a materion yn cael eu nodi. Mae yna dystiolaeth o welliannau sylweddol yn y gwasanaeth ond mae pryderon yn dal i gael eu mynegi o safbwynt y gweithlu bregus. Roedd yr Arolwg o'r Gwasanaethau Maethu a Phlant a Theuluoedd, er iddynt ddod i'r casgliad nad oedd 'unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio wedi eu nodi', wedi nodi bod rhai meysydd yn parhau i fod angen eu gwella.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD Y BYRDDAU RHAGLEN

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan Gadeiryddion y Byrddau Rhaglen.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy adroddiad byr ar y tri Bwrdd Rhaglen sydd â throsolwg ac sy'n gyrru'r rhaglenni a'r prosiectau newid o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid cydweithredu allanol. Roedd dyletswyddau'r Byrddau wedi eu nodi yn 1.1-1.3 yr adroddiad.

Nododd bod Byrddau Prosiect yn awr yn ogystal â Byrddau Rhaglen yn cryfhau ac yn cyflawni dyletswyddau eu gwaith. Roedd negeseuon allweddol o Fyrddau Rhaglen mis Medi wedi eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Trawsnewid yr Awdurdod ar MonITor. Bydd gwaith yn parhau gyda'r Arweinyddion Prosiect a Rhaglenni a Rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddarparu eu rhaglenni a'u prosiectau'n effeithiol.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yn rhaid i'r Byrddau gael eu rheoli'n ofalus a bod rhaid osgoi llwyth gwaith gormodol; rhaid i'r prosiect fod yn un gyda ffocws ac yn un y gellir ei reoli. Ni ddylai gwaith y Byrddau hyn chwaith ddyblygu gwaith y dyletswyddau sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **2.12.13** |
| **Pwnc** | **Cynllun Corfforaethol 2013-2017** |
| **Deilydd Portffolio** | **Alwyn Rowlands** |
| **Prif Swyddog(ion)** | **Bethan Jones** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Gethin Morgan 2111** |

**Natur a rheswm am adrodd**

**Fel y gall y Pwyllgor Gwaith argymell yn ffurfiol i'r Cyngor Llawn fod Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-2017 yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu**

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion i'w Ystyried**

Mae sicrhau fod gennym ni fel Cyngor Sir Gynllun Corfforaethol cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig i weithrediad llwyddiannus y rhaglen drawsnewid a'n gweledigaeth i adeiladu 'Ynys Môn Newydd' .

Mae'r cynllun ei hun wedi cael ei ddatblygu a'i siapio gan : -

**Barn y bobl leol** - Rydym yn symud tuag at fod yn Gyngor sy'n gwrando'n llawer gwell ac rydym wedi gwella ein harferion o ran ymgynghori ac ymgysylltu gyda'n dinasyddion a'n cymunedau. Ymgymerwyd â phroses helaeth a chynhwysfawr o ymgysylltu â'n dinasyddion rhwng mis Awst a mis Medi 2013 i nodi ac yn wir i gadarnhau ymhellach y blaenoriaethau a'r canlyniadau a oedd, ym marn ein dinasyddion, yn bwysig yn ystod yr arolwg dinasyddion a gynhaliwyd 2012.

**Barn ein partneriaid** – Prin ein bod yn darparu unrhyw wasanaeth heb fewnbwn a chyfraniad ein partneriaid lleol. Wrth ddatblygu'r ddogfen hon, rydym wedi ystyried y rhaglen Ynys eang sy'n cael ei datblygu gyda phartneriaid fel rhan o'r ddogfen 'Ein Hynys, Ein Dyfodol' ddiwygiedig ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud gwahaniaeth drwy gymryd yr awenau.

**Sut mae ein gwasanaethau'n perfformio ar hyn o bryd** - Rydym yn gwella sut rydym yn monitro ein perfformiad drwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad cysylltiedig, er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ac yn gwneud gwelliannau parhaus. Os nad ydym yn perfformio'n ddigon da, yna cymerir camau i unioni pethau. Mae ein blaenoriaethau yn

adlewyrchu nifer o feysydd lle mae angen gwelliant i adeiladu'r 'Ynys Môn Newydd ' .

**Blaenoriaethau Gwleidyddol** – Mae ein Cynghorwyr Etholedig, fel cynrychiolwyr eu cymunedau lleol, hefyd wedi tynnu sylw at nifer o faterion drwy ddulliau traddodiadol o ymgysylltu a gweithdai a byrddau rhaglenni sefydledig ac mae'r rhain hefyd wedi cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

**Blaenoriaethau Cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru** – Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel yr amlygwyd yn eu Rhaglen Lywodraethu hefyd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau lleol gyda phwyslais penodol ar gefnogi'r mwyaf bregus, addysg, twf a swyddi cynaliadwy.

**B – Ystyriaethau**

Yn flaenorol, roedd Cynllun Trawsnewid y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ( Ionawr 2013 ) yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu'r Cynllun Corfforaethol.

Bydd y cynllun newydd yn ganolog i symud y Cyngor yn ei flaen yn ddiwylliannol. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddod yn Gyngor y bydd eraill yn ceisio meincnodi eu hunain yn ei erbyn. Mae hyn yn golygu erbyn 2016 y bydd Cyngor Sir Ynys Môn ;

- Wedi cynyddu balchder yn Ynys Môn, ei aelodau etholedig, rheolwyr , staff, gwasanaethau a mwynderau .
- Wedi ennill parch o fewn y teulu llywodraeth leol yng Nghymru, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol .
- Ag aelodau etholedig, rheolwyr a staff sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn tyfu mewn gallu o ganlyniad.
- Gyda dealltwriaeth o'n gwasanaethau ac yn rheoli perfformiad yn rhagweithiol, gan dargedu camau gweithredu i sicrhau gwelliant ble a phryd y mae angen hynny.
- Wedi sefydlu meysydd arloesol, arferion da a rhagoriaeth gwasanaeth y bydd sefydliadau eraill yn ceisio meincnodi eu hunain yn eu herbyn .
- Wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol , dryloyw a llawn ymddiriedaeth gyda'n partneriaid.
- Wedi bodloni ein harchwilwyr o ran arweinyddiaeth, llywodraethu a chapasiti sefydliadol.

Wrth drawsnewid ein Cyngor mae 6 thema allweddol a fydd yn sylfaen i'r ffordd y



DRAFT

byddwn yn gweithio. Y themâu allweddol a ddatblygwyd gan staff yw ;

Thema 1 - Proffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda
Thema 2 - Arloesol, Uchelgeisiol ac eangfrydig
Thema 3 – Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
Thema 4 - Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl
Thema 5 – Ymrwymedig i Bartneriaeth
Thema 6 – Yn cyflawni

Mae'r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori wedi bod yn fanylach ac yn helaethach nag unrhyw ymarfer blaenorol a gynhaliwyd gan y Cyngor. Mae'r ymarfer "Gwneud Gwahaniaeth " o'r cychwyn cyntaf wedi cynnwys -

Sylw yn y wasg a'r cyfryngau ynglŷn â'r ymarfer ymgynghori
Gosod posteri ar hyd a lled Ynys Môn (siopau, meddygfeydd a mannau cyhoeddus eraill)
Ymgysylltu cyhoeddus eang drwy holiaduron ar-lein a holiaduron papur ar draws y Sir
Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy Facebook a Twitter
Ymgynghori yn swyddfeydd y Cyngor ledled y Sir
Ymgynghori mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y Sir
Ymgynghori mewn Canolfannau Hamdden ar draws y Sir
Ymgynghori yn Amgueddfa'r Sir
Gweithdai gyda Phenaethiaid Gwasanaeth/Uwch Arweinyddion ac aelodau

1.3 Mae elfennau allweddol y Cynllun fel a ganlyn -

**Nod** - "byddwn yn Gyngor proffesiynol sydd yn cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn eangfrydig yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion. "

Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ers 2012, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn ynglŷn â pha wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw'r pwysicaf iddynt. Ar draws demograffeg, daearyddiaeth a mecanweithiau ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:

• Cefnogi'r bobl fwyaf bregus
• Datblygu'r Economi
• Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Mae'r blaenoriaethau hyn felly yn sail i'r meysydd y canolbwyntir arnynt yn benodol yn y cynllun corfforaethol hwn: -

• Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
• Cynyddu ein Opsiynau Tai a lleihau tlodi
• Adfywio ein Cymunedau a datblygu'n economi
• Gwella Addysg a moderneiddio ein hysgolion
• Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )
• Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
• Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Diwylliant

Nodir yn y cynllun y byddwn yn mabwysiadu ymagwedd 'Un Cyngor' i gyflwyno gwasanaethau drwy gefnogi gweithlu modern, hyblyg, gyda'r gallu i gyflawni amcanion y Cyngor. Bydd rôl ein gweithlu yn newid wrth i'r cynllun gael ei ddarparu . Ein rôl esblygol fydd i gomisiynu gwasanaethau ac i ddarparu'r gwasanaethau hynny ein hunain lle mae hynny'n cynnig y canlyniad gorau i'r defnyddwyr.

Bydd sicrwydd a llywodraethu yn allweddol i sicrhau y caiff y cynllun corfforaethol hwn ei wireddu. Wrth wneud hynny, byddwn yn -

- darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygu perfformiad unigol
- casglu a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad a chymryd camau i wella lle bo angen
- cefnogi cryfder esblygiadol prosesau gwneud penderfyniadau a chraffu democrataidd y Cyngor
- cryfhau ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion Ynys Môn yn y prosesau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau yn y Cyngor
- parhau i gryfhau'r prosesau sy'n ymwneud â chyllid ac adrodd ar y gweithlu a'i fonitro

Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Swyddogion yn gofyn am yr awdurdod i ddiwygio a chwblhau'r fersiwn ddrafft bresennol o'r Cynllun Corfforaethol a hynny ar y cyd gyda'r Aelod Portffolio (lywodraethu Corfforaethol) cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 5 Rhagfyr, 2013

| C – Implications and Impacts | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyllid / Adran 151 | Bydd costau cysylltiedig a gwireddu'r blaenoriaethau corfforaethol yma yn cael eu cysidro fel rhan o broses y gyllideb ynghyd a datblygaid ein strategaeth ariannol tymor canol am y 4 blynedd nesa'. |
| **2** | Swyddog Cyfreithiol / Monitro | |
| **3** | Adnoddau dynol | |
| **4** | Gwasanaethau eiddo<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **5** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| **6** | Cydraddoldeb<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **7** | Gwrth-dlodi a Chymdeithasol<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **8** | Cyfathrebu<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **9** | Ymgynghori<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **10** | Economaidd | |
| **11** | amgylcheddol<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **12** | Trosedd ac Anhrefn<br>(Gweler y nodiadau - ddogfen ar wahân) | |
| **13** | Cytundebau Canlyniadau | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Mae sicrhau ein bod fel Cyngor Sir â Chynllun Corfforaethol cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig i'r daith barhaus o ran gwella llywodraethu corfforaethol a'r rhaglen |

drawsnewid. Mae'n darparu cyfeiriad pendant a strategol ar gyfer y sefydliad - un y gall Aelodau a Swyddogion fod yn atebol am ei gyflawni.

Mae'n cynnwys nod y Cyngor, ardaloedd y byddir yn canolbwyntio arnynt a'r canlyniadau y byddwn fel sefydliad yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion yn ystod y pedair blynedd nesaf.

**D – Argymhellion**

Argymell -

1. Derbyn bod y drafft hwn o'r Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yn nodi rhaglen y Cyngor ar gyfer gweddill y tymor hyd at 2017.
2. Bod y Cyngor Llawn yn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan roddi'r awdurdod i Swyddogion mewn cydweithrediad gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol wneud mân newidiadau cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Enw'r Awdur –** **Gethin Morgan**
**Teitl Swydd –** **Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen**
**Dyddiad -** **25.11.13**

**Atodiadau:**

**Papurau Cefndir**

Cynllun Trawsnewid – ystyriwyd 14/01/13



DRAFT

## CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2013-2017

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn erbyn 2017 yw -

**Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy’n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion.**

Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, fel Cyngor bydd angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau. Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor fydd medru gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau yn ei feddwl – a gweithredu arno.

Mae’r gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol yr ydym erioed wedi’i gynnal fel cyngor wedi ein cynorthwyo i greu'r cynllun hwn .

Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ers 2012, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn ynglŷn â pha rai o wasanaethau’r Cyngor sydd bwysicaf iddynt, a’r rhai nad oeddent, yn eu tyb hwy, mor bwysig. Ar draws demograffeg, daearyddiaeth a’r mecanweithiau ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Canolbwyntir ar y blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol hwn. Mae'n bwysig nodi yn 2017 y bydd cwsmeriaid y Cyngor yn eu hanfod yr un rhai, sef, yn bennaf, ein dinasyddion, busnesau ac ymwelwyr. Bydd y Cyngor felly, yn gweithio gyda’n dinasyddion i newid y ffordd yr ydym i gyd yn meddwl am gyfrifoldebau priodol y Cyngor, cymunedau ac unigolion.

Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am y pethau hynny y gall neb arall ond y ni eu gwneud – h.y. addysgu ein plant, cefnogi’r mwyaf bregus a galluogi pobl i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a diogelu pobl rhag niwed. Byddwn yn helpu pobl i aros yn iach tra'n diogelu a hyrwyddo ein diwylliant, iaith a threftadaeth yn wyneb y risgiau allanol sydd ar y gorwel. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal a chadw cyfleusterau lleol megis ffyrdd a goleuadau stryd.

DRAFT

Er y bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth ddwyieithog o wasanaethau statudol a chraidd, bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu fwyfwy mewn gwahanol ffyrdd, a chan ddarparwyr eraill. Bydd gofyn inni reoli'r lleihad mewn cyllidebau a'r galw cynyddol oherwydd newidiadau demograffig a chymdeithasol, er mwyn sicrhau y parheir i ddarparu'r blaenoriaethau hynny. Bydd y gwasanaeth i oedolion a phlant bregus yn parhau ond efallai mewn ffyrdd gwahanol e.e. yn cael eu hariannu drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol neu godi tâl.

Mae dyhead y cynllun hwn a'i weledigaeth yn uchelgeisiol. Bwriedir i bob maes allweddol gyfrannu tuag at Ynys Môn ffyniannus , ddwyieithog, gyda mesurau clir yn cael eu nodi yn ddiweddarach ar gyfer pob maes penodol. Byddwn yn ymrwymo i fod yn dryloyw gan chwilio am gyfleoedd i gael ein dwyn i gyfrif am y deilliannau hyn. Byddwn yn cyfleu ein mesurau llwyddiant drwy gerdyn sgorio perfformiad hygyrch fydd ar gael i drigolion, busnesau a phartneriaid.

Bydd Ynys Môn, fel pob awdurdod lleol arall, yn wynebu pwysau sylweddol o ran cyllideb a rhaid i ni ganolbwyntio ar wneud mwy o arbedion. I gymhlethu'r sefyllfa, mae economi'r ynys sydd â'r Gwerth Crynswth Ychwanegol isaf yn y DU, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa a gweithio o fewn cyfnod heriol a newidiol iawn, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at reoli ein cyllideb. Mae'r rhagolygon ariannol Tymor Canol yn nodi'r pwysau sy'n wynebu'r Awdurdod yn ystod cyfnod y ddogfen hon. Yn seiliedig ar y rhagolygon o ran chwyddiant a phwysau twf, a chyda chynnydd treth gyngor blynyddol o 5 % rhagwelir y bydd angen dod o hyd i £16 miliwn arall o arbedion effeithlonrwydd dros y 3 blynedd sydd i ddod.

O ystyried y risgiau a'r ansicrwydd cenedlaethol / economaidd / demograffig sy'n wynebu'r Awdurdod , mae angen amlwg i or-gynllunio a gor-gyflawni ar gynilion ac mae hyn yn her allweddol i ni fel Cyngor wrth fynd ymlaen.

Mae'r Ynys angen economi fwy bywiog a llewyrchus fydd yn sylfaen i fusnesau llwyddiannus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus a chymwys a phoblogaeth iach sydd yn byw yn fwy annibynnol o'r gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn ein barn ni, yn cyfrannu at ymdeimlad ein dinasyddion fod Ynys Môn yn lle gwych i fyw, a mesur pwysig o'r llwyddiant hwnnw fydd profiadau ac atborth ein trigolion.

Yn sgil hyn felly, ein haddewidion ni i chi fel Cyngor am y 4 blynedd nesaf dydd:





DRAFT

**Ein bod yn trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn**

Mae pobl yn byw'n hirach ac fel y cyfryw, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf *. Mae nifer y bobl hŷn sy'n byw yn Ynys Môn ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae cynnydd hefyd o ran nifer y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn ôl y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu) mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau ein bod yn gynaliadwy yn awr a hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn trawsnewid y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol i'n hoedolion hŷn, mae'r Cyngor yn addo -

- datblygu a sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng nghanol a Gogledd yr Ynys gyda chynlluniau pellach ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys
- gwella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl
- ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd , datblygu darpariaeth gwasanaeth a rheoli ar y cyd yn arbennig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chefnogaeth i ofalwyr

SUT BYDDAI LLWYDDIANT YN EDRYCH? –

Rydym yn rhagweld y bydd llwyddiant yn golygu -

- Y bydd oedolion hŷn yr Ynys yn cael dewis a rheolaeth dros ble maent yn byw
- Bydd gofal o ansawdd uchel cyson ar gael ym mhob llety
- Bydd oedolion hŷn yr Ynys yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned lle maent yn byw
- Bydd lleihad cyson yn nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty a'r rhai sy'n gorfod mynd dro ar ôl tro





DRAFT

- Bydd cynnydd yn y gefnogaeth amser-gyfyngedig, sy'n canolbwyntio ar alluogi oedolion i adennill eu hannibyniaeth
- cyd-leoli staff Oedolion Gofal Cymdeithasol yn y gymuned gyda chydweithwyr Iechyd

COST - Rydym yn credu y bydd cyfanswm y gost o ddatblygu'r cynlluniau tai gofal ychwanegol tua £16m o gyllid cyfalaf dros y pedair blynedd . Wrth ddatblygu a sefydlu'r cynlluniau hyn, rydym yn rhagweld gweithio gyda phartneriaid ( Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / y sector preifat ) i rannu'r costau. O ganlyniad i'r gwelliant parhaus hwn yn y ddarpariaeth rydym hefyd yn disgwyl i'r buddsoddiad  gynhyrchu arbedion refeniw sylweddol oherwydd y ffordd drawsnewidiol y bydd gofal yn cael ei ddarparu.

**Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau tlodi**

Mae cael lle fforddiadwy a safonol i fyw ynddo yn bwysig er mwyn sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, mwynderau ac addysg ac i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn edrych ar fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat er mwyn gwneud y gorau o nifer ac ansawdd y cartrefi ar gyfer contractwyr. Byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu nifer uwch o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

Fel Cyngor , felly , rydym yn addo –

- gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chyd-drefnu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles
- cynyddu'r dewisiadau o dai fforddiadwy drwy'r ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd
- archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i'r farchnad dai
- gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth ar gyfer pobl ifanc
- cefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o ddod yn unigolion digartref a'r digartref presennol i ddod o hyd i gartrefi parhaol

SUT BYDD LLWYDDIANT YN EDRYCH - mesurau canlyniad ?

- 225 o gartrefi gwag yn dod yn ôl i ddefnydd

- Gwireddu’r cyflenwad tir 5 mlynedd o dai sy'n golygu datblygu tai newydd ar yr ynys
- Mwy o hyder, rheolaeth ac annibyniaeth i unigolion i reoli eu harian eu hunain
- Mwy o hyder i unigolion chwilio am waith

COST - Mae'r flaenoriaeth hon yn dibynnu ar fuddsoddiad cyfalaf. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithio mewn partneriaeth gyda datblygwyr sector breifat, landlordiad Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru a’i chynllun ' Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi' & ‘Helpu i Brynu Cymru’.  Bydd hyn, ynghyd â chronfa adnewyddu sector preifat y Cyngor ei hun, yn arwain yn fras at £5 miliwn o fuddsoddiad dros gyfnod y cynllun hwn.

**Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi**

Mae'r Cyngor yn anelu at ddyfodol lle mae cymunedau lleol , mentrau cymdeithasol , busnesau a'r sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i gytuno a sicrhau cynnydd gyda blaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi newydd yn hollbwysig  i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd . Er y cydnabyddir mai’r sector preifat yw'r prif yrrwr economaidd a’r prif grëwr cyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu a ffynnu.

Mae Rhaglen Ynys Ynni a’r statws Parth Menter a ddynodwyd yn ddiweddar yn darparu cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y  sector ynni carbon isel i dyfu. Bydd y Cyngor yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

Bydd y Cyngor yn –

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith , argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol;



DRAFT

- gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr drwy ei gefnogaeth i gynllun rheoli cyrchfan yr ynys;
- gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad, buddsoddi a chreu swyddi;
- ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r manteision mwyaf posib i'r gymuned;
- gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu parc gwyddoniaeth yn Ne'r Ynys gan ychwanegu gwerth i'r datblygiadau ynni arfaethedig, creu swyddi ac arallgyfeirio'r economi leol;
- gyrru adfywio cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer prif aneddiadau'r ynys gan flaenoriaethu Caergybi, Llangefni ac Amlwch;
- gweithio gyda phartneriaid i wella'r rhwydwaith ffyrdd drwy ail-wynebu, gwella wyneb y ffyrdd a buddsoddiadau eraill yn yr isadeiledd, gan gynnwys uwchraddio 12 milltir o'r A5025 o'r Fali i Wylfa
- cynorthwyo adfywio cymunedau drwy hwyluso a galluogi gwell cyd -drefnu, buddsoddi ac alinio ar gyfer rhaglenni fel rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a Chaergybi Ymlaen

SUT BYDDAI LLWYDDIANT YN EDRYCH? – Mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

- Cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig o fewn y sector ynni carbon isel;
- Byddwn wedi manteisio'n llawn ar gyfleoedd ariannu allanol i alluogi adfywio economaidd cymunedol a lleol;
- Cynnydd yn nifer y busnesau newydd a ffurfiwyd;
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr;





DRAFT

- Llai o bobl ifanc yn gadael yr Ynys;
- Gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd a chyfraddau diweithdra;
- Cynnydd yn y boblogaeth o oedran gweithio

COST – Mae clustnodi costau ar gyfer gwaith adfywio yn anodd ar y gorau oherwydd y gwahanol sefydliadau a'r gofynion ynghylch arian cyfatebol. Fodd bynnag, fel Cyngor rydym yn rhagweld y bydd angen i ni weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat, yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru i wireddu cyfanswm o fuddsoddiad mewnol o dros £20m i gyflawni'r uchod.

**Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion**

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, i gyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn derbyn bod angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn mae herio syniadau cyfredol, annog arloesed a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol yn flaenoriaethau y mae'r Cyngor wedi eu derbyn.

Rydym, felly, fel Cyngor yn addo –

- Parhau i godi safonau o ran cyfraddau cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb
- Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys
    - agor ein hysgol anghenion arbennig - Ysgol y Bont
    - darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd
- Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n galluogi Ynys Môn a Gogledd Cymru i wella sgiliau ei weithlu ac alinio ei hun gyda chyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol

SUT BYDDAI LLWYDDIANT YN EDRYCH ? –





DRAFT

Rydym yn rhagweld drwy drawsnewid ein darpariaeth addysg y byddwn yn gweld -

- Gwelliannau mewn safonau ar draws yr Ynys
- nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n ennill canlyniadau achrededig o ddysgu anffurfiol
- cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc yn elwa o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol
- gostyngiad yn nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion

COST - Rydym yn amcangyfrif bod angen sicrhau tua £20m i wireddu’r rhaglen foderneiddio hon a thrwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y sector preifat, rydym yn rhagweld y bydd angen i ni fuddsoddi tua 50% o gostau o'r fath fel Awdurdod Lleol. Rydym yn disgwyl i'r buddsoddiad mewn seilwaith ysgol newydd gynhyrchu arbedion refeniw, gan y bydd yn gostwng y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a rhedeg yr ysgolion o ddydd i ddydd.



**Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )**

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio yn unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i gyflawni llawer o'u hanghenion personol neu anghenion busnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, lle bynnag y maent ac yn yr iaith o’u dewis.

Bydd pob rhyngweithio, mewnol ac allanol, yn cael ei alluogi’n electronig. Bydd modd cyfathrebu wyneb yn wyneb a thrwy ffyrdd eraill, ar gyfer y rheini sydd angen gwneud hynny. Drwy newid y systemau byddwn yn rhyddhau staff i fwrw ymlaen i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn ond eto’n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddwn yn eu rhesymoli’n drylwyr i sicrhau na fyddwn yn defnyddio systemau nad ydynt yn gwneud hynny.

Er mwyn cyflawni hyn , mae'r Cyngor yn addo –

- sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad i’r systemau cyfrifiadurol y maent eu hangen yn ddiogel o unrhyw leoliad



DRAFT

- sicrhau bod cwsmeriaid a dinasyddion yn gallu cyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt
- sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn ehangach i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol
- chwilio am ac yn croesawu technolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion presennol a dyfodol y Cyngor a dinasyddion yr Ynys

SUT BYDDAI LLWYDDIANT YN EDRYCH? -

- *Byddai staff yn cael gweithio'n hyblyg o wahanol leoliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau*
- *Bydd dinasyddion yn cael mynediad at wybodaeth drwy amryfal sianelau ar unrhyw adeg o'r dydd ac o unrhyw ran o'r Ynys*
- *Bydd staff yn gallu symud a gweithio'n hawdd rhwng swyddogaethau a gwasanaethau o ganlyniad i offer a phrosesau safonol*
- *Bydd y broses o integreiddio a chysoni prosesau TGCh ar y cyd yn arwain at gyflwyno gwell gwasanaethau a mwy o fanteision i ddinasyddion a busnesau lleol*
- *Bydd stad y Cyngor yn cael ei resymoli*
- *Bydd lleihad yng nghostau cyffredinol y Cyngor*



COSTAU - Mae'n debygol y bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi yn sylweddol i uwchraddio a gwella ei ddarpariaeth TG. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd buddsoddiad o'r fath oddeutu £1m yn ystod oes y cynllun hwn.

**Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro**

Mae gennym ffordd bell i fynd i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Cynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch ar gyfer gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu arno . Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol wrth wrando'n astud ar ein dinasyddion ac ymgysylltu â hwy ar ( i) eu blaenoriaethau a ( ii) meysydd lle maent wedi nodi arbedion/effeithlonrwydd. Mae hyn wedi arwain at well gwasanaethau a fydd yn gwella eto . Byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau

cymdeithasol fel ‘Facebook’ a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

Wrth ganolbwyntio ar gwsmeriaid a chanolbwyntio ar y dinesydd, bydd gwrando  a gweithredu ar y canfyddiadau yn dod yn elfen allweddol o'n ffordd o weithio, ac wrth wneud hyn rydym yn fel Cyngor yn addo -

- datblygu , cytuno a chymeradwyo siarter cwsmeriaid cadarn a dilys sydd yn nodi ein disgwyliadau penodol pan fydd ein staff yn delio â chwsmeriaid
- datblygu, chryfhau ein hymgysylltiad a chynnwys dinasyddion Ynys Môn ym mhrosesau’r Cyngor o ran atebolrwydd a  gwneud penderfyniadau
- archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn eu gwasanaeth ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno’r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael
- sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu hyrwyddo drwy sefydlu strategaeth ddatblygedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg a gweithredu arni
- anelu yn  gorfforaethol at gyflawni achrediad Lefel 5 safon amgylcheddol y Ddraig Werdd

*SUT BYDD  LLWYDDIANT YN EDRYCH? –*

*Trwy ddod yn sefydliad sy’n rhoi gwasanaeth rhagorol i’w gwsmeriaid, byddem yn hoffi gweld -*

- *ein henw da a’n hygrededd yn gwella fel ein bod yn darparu gwerth am arian,  yn perfformio’n dda ac â gwerthoedd y gellir ymddiried ynddynt*
- *gwelliant o ran agweddau ac ymddygiad a hynny yn ei dro yn arwain at well proffesiynoldeb a sgiliau*
- *llwyddo i gael y wobr safon rhagoriaeth mewn gwasanaethau i gwsmeriaid*
- *gwelliannau o ran hygyrchedd a hyblygrwydd fel bod cwsmeriaid yn teimlo bod y Cyngor yn cynllunio ac yn gweithredu i ddiwallu eu hanghenion*
- *gwella ein hisadeiledd er mwyn sicrhau fod profiad y defnyddwyr o ddefnyddio’r gwasanaeth yn un cadarnhaol*

DRAFT

COSTAU - rhagwelir y bydd y costau sy’n gysylltiedig â’r thema hon yn isel iawn ar y cychwyn ac y bydd modd gwneud arbedion sylweddol drwy integreiddio gwasanaethau a sefydlu systemau gwell maes o law. Mae achosion Busnes yn cael eu llunio ar hyn o bryd .

**Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd**

Mae cyfleusterau chwaraeon a hamdden, a’r rhaglenni gweithgaredd sy'n eu defnyddio, yn chwarae rhan arwyddocaol mewn perthynas ag iechyd y gymuned ac yn fodd i ddatblygu hunanhyder pobl . Byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu dulliau mwy integredig o roi sylw i faterion lles yn y dyfodol gan olygu y bydd rôl chwaraeon a hamdden yn cael ei hadolygu a’i hailddiffinio. Wrth i mae rôl y gymuned a grwpiau eraill ddatblygu o ran y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig, byddwn yn sicrhau bod y cyfleon hamdden yr ydym yn eu cynnig yn addas i'r pwrpas ac yn cynnig y gwerth am arian gorau posibl wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Rydym yn awyddus i gadw ein lle a’n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau gan droi ein llyfrgelloedd yn 'ddrws ffrynt cyffredinol' i ni fel cyngor. Bydd hyn yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach a hwylusach i’r wybodaeth a’r gwasanaethau y maent eu hangen.

Wrth ymgymryd â'r rôl hon , fel Cyngor rydym yn addo –

- datblygu , sefydlu’n gadarn a gweithredu ar strategaeth hamdden tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau buddsoddiad gan y sector cyhoeddus
- cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda’n hysgolion uwchradd ac ymchwilio i’r posibilrwydd y gall darparwyr allanol cymunedol redeg y cyfleusterau gyda’r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol
- annog datblygu a chefnogi darpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau
- ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer y ddarpariaeth o Lyfrgelloedd
- ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu (os yw'n berthnasol), drefniadau newydd ar gyfer

DRAFT

SUT BYDDAI LLWYDDIANT YN EDRYCH? -

- *gweithredu ar fodelau newydd o ran rheoli llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth ddiwylliannol*
- *Cynnal a chynyddu lefel y cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon*
- *Cynnydd o ran nifer yr ymwelwyr i'n safleoedd diwylliannol / treftadaeth*
- *Darpariaeth llyfrgell bwrpasol a chynaliadwy*

COST - Y nod fyddai lleihau costau cyffredinol y gwasanaethau hyn i'r Cyngor o 60 % dros gyfnod y cynllun hwn.



**SUT I ........**

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd ' Un Cyngor ' i gyflwyno gwasanaethau drwy gefnogi gweithlu modern, hyblyg gyda'r sgiliau i gyflawni amcanion y Cyngor. Bydd rôl ein gweithlu yn newid wrth i'r cynllun hwn gael ei gyflwyno . Ein rôl esblygol fydd comisiynu gwasanaethau a darparu'r gwasanaethau hynny ein hunain lle byddai hynny'n sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae'n bwysig nodi y bydd y gwasanaeth bob amser yn cael ei ddarparu yn newis iaith y dinesydd. Nid rôl y Cyngor yw bod yn gyflogwr er ei fwyn ei hun . Rydym yma oherwydd ein cwsmeriaid ac nid fel arall. Mae gwasanaethau Cefnogol ar gael i gefnogi a hybu newid cadarnhaol yn y gwasanaethau rheng flawn. Wrth gyflawni'r nod hwn, bydd gwaith dydd i ddydd staff y Cyngor yn cael ei gefnogi gan gyfres o ddisgwyliadau o ran gweithwyr ac aelodau ( 6 thema allweddol) a fydd yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir o ran gweithgaredd ac ymddygiad ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Bydd trefniadau gweithio mwy hyblyg gyda staff yn cael eu rheoli drwy ganlyniadau a chyda llai o swyddfeydd, fel y gallant wario canran uwch o'u hamser yn cysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid . Rhagwelir y bydd model 'both a sbôc' yn cael ei sefydlu ar gyfer nifer o wasanaethau gan sicrhau fod lle canolog yn bodoli ond y bydd staff yn cael eu lleoli mor agos ag sy'n bosibl at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Bydd sicrwydd a llywodraethinat yn allweddol i sicrhau y caiff y cynllun corfforaethol hwn ei wireddu. Wrth wneud hynny , byddwn yn –



DRAFT

- darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i lawr at y broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygiad perfformiad unigol
- casglu a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad a chymryd camau i wella lle mae angen gwneud hynny
- cefnogi datblygiad prosesau’r Cyngor o ran gwneud penderfyniadau a sgriwtini
- cryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a’u cyfraniad nhw at brosesau’r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau
- parhau i gryfhau ein prosesau sy'n ymwneud â chyllid ac adrodd ar y gweithlu a’i fonitro
- sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer delio â'n heriau ariannol, gan sicrhau fod gwasanaethau’n trawsnewid gwasanaethau a bod arloesed wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **5 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **AMSER CYFARFODYDD Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYTUNO AR DREFNIADAU AR GYFER Y DYFODOL** |

Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseroedd cynnal cyfarfodydd yr awdurdod lleol. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cynnal cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

Gofynnwyd am farn yr Aelodau a'r Aelodau Cyfetholedig ynghylch amseriad cyfarfodydd yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mewn trefn ranc y dewisiadau yr oeddynt yn eu ffafrio o ran cynnal cyfarfodydd – y dewisiadau oedd 10.00am, 2.00pm, 4.00pm and 6.00pm. Mae'r dewisiadau a ffefrir wedi eu crynhoi isod:

| Pwyllgor | Atborth yn nhrefn y dewis a ffefrir |
|---|---|
| **Cyngor** | |
| **10.00am** | **2** |
| **2.00pm** | **1** |
| **4.00pm** | **3** |
| **6.00pm** | **4** |
| **Pwyllgor Gwaith** | |
| **10.00am** | **1** |
| **2.00pm** | **2** |
| **4.00pm** | **3** |
| **6.00pm** | **4** |
| **Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| **10.00am** | **2** |
| **2.00pm** | **1** |
| **4.00pm** | **3** |
| **6.00pm** | **4** |

| | |
|---|---|
| **Lled-farnwrol**<br><br>**10.00am**<br>**2.00pm**<br>**4.00pm**<br>**6.00pm** | <br><br>**1**<br>**2**<br>**3**<br>**4** |
| **Pwyllgorau Eraill**<br><br>**10.00am**<br>**2.00pm**<br>**4.00pm**<br>**6.00pm** | <br><br>**2**<br>**1**<br>**3**<br>**4** |

Mae'n amlwg o'r atborth a gafwyd y byddai'n well gan yr Aelodau i'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal naill ai am 10.00am neu 2.00pm. Fodd bynnag, nodir y cafwyd rhai sylwadau ychwanegol fel rhan o'r atborth a gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

i. Mae'n well cychwyn am 1.00pm neu 1.30pm (1 Aelod);
ii. Mae angen cydnabod ymrwymiadau gwaith ac ystyried cynnal rhai cyfarfodydd cyn 10.00am ac ar ôl 6.00pm (1 Aelod);
iii. Arbrofi drwy gynnal rhai cyfarfodydd am 4.00pm am flwyddyn, e.e. pwyllgor sgriwtini (1 Aelod);
iv. Dylid cynnal rhai cyfarfodydd gyda'r nos (1 Aelod).

**Trefniadau mewn Awdurdodau Eraill yng Ngogledd Cymru**

Er gwybodaeth, gweler isod y trefniadau mewn Awdurdod eraill:

| **Enw'r Awdurdod** | **Trefniadau** |
|---|---|
| Gwynedd | Dim cyfarfodydd gyda'r nos ac eithrio Pwyllgorau Rhanbarth |
| Sir Y Fflint | Dim cyfarfodydd gyda'r nos ac eithrio'r Pwyllgor Safonau a gynhelir am 6.00pm |
| Sir Ddinbych | Dim cyfarfodydd gyda'r nos |
| Conwy | Cynhelir y Pwyllgor Trwyddedu a dau Bwyllgor Sgriwtini ar ôl 6.00pm. Cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd am 10.00am neu 2.00pm |
| Wrecsam | Cynhelir y Cyngor Llawn, Cynllunio, 2 o'u 5 Pwyllgor Sgriwtini gyda'r nos. Cynhelir y gweddill yn ystod y dydd gan gynnwys cyfarfodydd y Cabinet. |

**Trefniadau Cyfredol**

Mae oddeutu 100 o gyfarfodydd yn y rhestr o gyfarfodydd a gyhoeddwyd ar gyfer 2013/14. Fodd bynnag, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ad-hoc eraill ers cychwyn y flwyddyn ddinesig. Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal naill ai yn y bore neu'r prynhawn heb unrhyw gyfarfodydd gyda'r nos. Ystyriwyd y mater ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Mai 2010 pryd cyflwynwyd adroddiad ar ymarferoldeb cynnal cyfarfodydd gyda'r nos a'r costau cysylltiedig o ran adnoddau staffio. Penderfynodd y Cyngor lynu wrth y drefn gyfredol o gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd. Bydd yr Aelodau'n nodi fod goblygiadau o ran adnoddau o gynnal cyfarfodydd gyda'r nos gan gynnwys amser staff y tu hwnt i'r oriau craidd o 7.00pm a'r costau cysylltiedig o ran adeiladau.

Mae Arweinyddion y Grwpiau wedi ystyried yr atborth gan Aelodau.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor ystyried a ddylai lynu wrth yr arfer bresennol o gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gytuno i drefniadau eraill.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd**
**25/11/13**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Safonau, Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Safonau 12.09.13<br>Pwyllgor Gwaith 21.10.13<br>Cyngor Llawn ...12.13 |
| **Pwnc** | Gwneud Newidiadau i'r Cyfansoddiad (3.5.3.15.5) a'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) |
| **Deilydd Portffolio** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, sef un newid i baragraff 3.5.3.15.5 ac un arall i adran 4.6, Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (y Rheolau):

1.1.1 <u>Newid 1</u> (paragraff 3.5.3.15.5) - Yn y dyfodol, yn achos ceisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu ffrindiau agos, yn hytrach na bod y ceisiadau'n cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bod modd i swyddogion cynllunio eu gwrthod dan y drefn ddirprwyo ac y byddant wedyn yn destun adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Lle byddai swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais o'r fath sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fyddai'n medru ei gymeradwyo.

1.1.2 <u>Newid</u> 2 (rhan 4.6) - Newid y Rheolau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol ac i gymryd Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 i ystyriaeth. Yn gryno, bod gan aelodau'r Pwyllgor hawl i fynegi barn ar rinweddau cais hyd yn oed cyn iddo ddod i Bwyllgor am benderfyniad, ar yr amod bod y farn honno'n rhagdueddiad ac nid yn rhagbenderfyniad. Byddai hynny'n cynnwys caniatáu i aelodau o'r Pwyllgor sydd hefyd yn aelodau o Gyngor Tref neu Gymuned gymryd rhan mewn mater cynllunio mewn cyfarfodydd o'u Cynghorau Tref neu Gymuned.

1.2 Mae'r cyfan o'r newidiadau arfaethedig wedi eu hamlygu yn y dogfennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

1.3 Ymgynghorir gyda'r Pwyllgor Safonau ar y cynigion hyn.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig; a

1.5 Gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau a ddangosir yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

Mae'r Cyfansoddiad cyfredol yn darparu fel a ganlyn.

2.1 Newid 1

2.1.2 Ni chaniateir i swyddogion cynllunio wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol (uwch swyddogion a'r rheini sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses gynllunio) a'u teulu a'u ffrindiau agos. Ar hyn o bryd y Pwyllgor sy'n penderfynu ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae man gwan yn y drefn, mewn perthynas â cheisiadau sy'n tynnu'n groes i'r cynllun datblygu (statudol). Y cynllun datblygu yw'r prif gyfrwng ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a rhaid penderfynu ceisiadau yn seiliedig ar ddarpariaethau'r cynllun hwnnw yn y rhan fwyaf o achosion.

2.1.3 Mae ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu penderfynu gan swyddogion pan maent yn dymuno gwrthod y cais, ond rhaid i'r holl geisiadau sy'n tynnu'n groes fynd i'r Pwyllgor os yw'r swyddogion yn dymuno cymeradwyo'r cais. Mae'r man gwan yn codi lle mae cais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, yn mynd yn syth i'r Pwyllgor am benderfyniad lle byddai cais o'r fath gan bobl eraill, mae'n debyg, yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyo.

2.1.4 I gau'r man gwan hwn, cynigir bod yr holl geisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol, neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu penderfynu gan swyddogion dan bwerau dirprwyo os ydynt yn dymuno gwrthod y cais. Byddai gwrthodiad o'r fath wedyn yn destun adroddiad llawn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae'r swyddog cynllunio yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, bydd angen iddo fynd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo fel pob cais arall sy'n tynnu'n groes.

2.2 Newid 2

2.2.1 Mae'r Rheolau cyfredol yn rhy gul o ran yr hyn y gall aelod o'r Pwyllgor ei wneud a'i ddweud y tu allan i gyfyngiadau'r cyfarfod o'r Pwyllgor. Er enghraifft, maent yn rhwystro aelodau o'r Pwyllgor rhag mynegi barn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor a hefyd yn eu rhwystro rhag cymryd rhan ar faterion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfodydd o'r Cynghorau hynny. Mae'r rheolau hyn yn rhy gaeth nag sy'n rhaid iddynt fod yn wyneb Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011.

2.2.2 Er bod y gyfraith wedi dweud erioed bod gan aelodau hawl i fynegi rhagdueddiad ar fater, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i aelodau ragbenderfynu. Yn syml, caniateir i aelodau fynegi barn ar bwynt penodol mewn amser, ar yr amod eu bod yn rhoi arwydd clir nad ydynt wedi cau eu meddyliau i wneud penderfyniad ar rinweddau'r mater hwnnw yn y dyfodol. Mae Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 wedi ceisio atgyfnerthu'r safbwynt hwnnw ac mae copi o'r adran ynghlwm. Yn ddiau, cafodd y rheolau cyfredol eu drafftio yn ôl yn 2011 yn seiliedig ar y sefyllfa a oedd yn bodoli bryd hynny mewn gwirionedd, yn ogystal ag efallai, y sefyllfa a oedd yn bodoli mewn cyfraith.

2.2.3 Fodd bynnag, yn wyneb Adran 25 ac ethol Cyngor newydd, ystyrir ei bod yn briodol yn awr i newid y rheolau fel eu bod yn adlewyrchiad gwell o'r sefyllfa mewn cyfraith. Mae'r newidiadau i'r rheolau yn yr atodiadau yn caniatáu yn awr i aelodau o'r Pwyllgor fynegi barn gyhoeddus ar rinweddau cais, yn amodol ar y diogelwch a grybwyllwyd, ac ar yr amod eu bod yn egluro mai barn amodol yw hon ac y byddant yn gwneud penderfyniad terfynol ar rinweddau'r cais fel y maent ar y pryd. Mater i'w benderfynu gan bob aelod ar y Pwyllgor fydd a ydynt yn dymuno manteisio ar y darpariaethau hyn ai peidio, ond mae'r newid yn y rheolau yn rhoi ystod o opsiynau iddynt ar gyfer y dyfodol.

**B – Ystyriaethau**

3.1 <u>Newid 1</u> - Mae man gwan yn y rheolau cyfredol o ran ceisiadau sy'n tynnu'n groes sy'n golygu bod ceisiadau o'r fath a wneir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu trin yn wahanol i geisiadau sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan ymgeiswyr eraill. Gan bod cynllunio yn bwnc proffil uchel i bob Cyngor, mae'n well bod yr holl ymgeiswyr sy'n gwneud ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu gweld yn cael eu trin yr un fath, yn amodol ar rai camau diogelwch perthnasol. Yn yr achos hwn, y diogelwch hwnnw fyddai'r angen i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor lle mae cais sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyol.

3.2 <u>Newid 2</u> - Mae'r rheolau cyfredol yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r cyfnod pryd cawsant eu drafftio. Erbyn hyn maent yn fwy caeth nag sydd raid iddynt fod ac maent yn rhwystro aelodau'r Pwyllgor rhag mynegi unrhyw farn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor. Yn yr un modd, gwaherddir Aelodau'r Pwyllgor rhag cymryd rhan mewn materion cynllunio yn eu swyddogaeth fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchiad o'r sefyllfa gyfreithiol sy'n caniatáu aelodau'r Pwyllgor i fynegi rhagdueddiad ond nid rhagbenderfyniad. Gellir newid y rheolau a chynnwys cyngor fel y gellir rhoi disgresiwn i aelodau o'r Pwyllgor chwarae rhan fwy gweithredol mewn materion cyhoeddus y tu allan i gyfyngiadau'r

| |
|---|
| Pwyllgor. |

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gydawdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| 9 | **Ymgynghori** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw aelodau etholedig drwy ohebiaeth ac mae'r adroddiad a'r Atodiad wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Adroddir ar lafar ar unrhyw sylwadau. |
| 10 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

**CH – Crynodeb**

4.1 Bydd y Rheolau newydd yn:

4.1.1 Golygu y gall swyddogion cynllunio, dan bwerau dirprwyol, wrthod unrhyw gais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, ond yn amodol ar gyflwyno adroddiad ysgrifenedig llawn i'r Pwyllgor nesaf er budd tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fedr roi'r caniatâd hwnnw. Bydd hyn yn golygu y bydd y ceisiadau hyn sy'n tynnu'n groes yn cael eu trin yr un fath â'r ceisiadau hynny a wneir gan ymgeiswyr eraill ac mae'n cau man gwan posib yn y Rheolau.

4.1.2 Egluro y bydd aelodau o'r Pwyllgor yn gallu mynegi barn ar rinweddau ceisiadau cynllunio cyn iddynt ddod i Bwyllgor am benderfyniad. Bydd hyn yn amodol ar gamau diogelwch i sicrhau y gall aelodau fynegi rhagdueddiad (a ganiateir) ond nid rhagbenderfyniad (nas caniateir). Gall aelodau o'r Pwyllgor, yn yr un modd, gymryd rhan mewn materion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaethau fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned os dymunent. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o opsiynau i aelodau ynghylch sut i ddelio gyda materion cynllunio, ond mater i ddisgresiwn yr unigolion fydd penderfynu sut i ddelio gyda'r materion hyn ac, wrth gwrs, gallant ofyn am gyngor fel y gwelant yn ddoeth.

4.1.3 Gwneud y newidiadau uchod a newidiadau bychan a chanlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad fel y dangosir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

**D – Argymhelliad**

5.1 Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

<u>I'r Pwyllgor Safonau</u>
5.2 Cyflwyno sylwadau fel corff yr ymgynghorwyd ag ef.

<u>I'r Pwyllgor Gwaith</u>
5.3 Argymell i'r Cyngor llawn y dylid gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

<u>I'r Cyngor llawn</u>
5.4 Gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Ngyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn, a

| |
|---|
| 5.5 Dirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i weithredu penderfyniad y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r Rheolau yn dangos y newidiadau bwriedig. |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Dim. |

Detholiad o’r Cyfansoddiad yn dangos newidiadau a fwriedir mewn coch:

“3.5.3.15.1 ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau’r Cyngor a’r Pwyllgor ynghylch materion cynllunio, gan gynnwys y canlynol:

(i) paratoi ceisiadau am gymorth grant i gynnal prosiectau a chynlluniau

(ii) gweinyddu Grantiau Gwella Masnachol

(iii) gweithredu fel Asiant ar ran Awdurdod Datblygu Cymru wrth weinyddu Grantiau Gwella Trefi a Grantiau Gwella Amgylcheddol eraill

(iv) paratoi astudiaethau ar y tir sydd ar gael i bwrpas datblygu ac astudiaethau monitro defnydd tir

(v) darparu gwasanaethau gwybodaeth ac ymchwil

(vi) rheoli safleoedd ac adeiladau yn y cefn gwlad o ddydd i ddydd

3.5.3.15.2 sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau ar a gweithredu polisïau a phenderfyniadau’r Cyngor a’r Pwyllgorau ynghylch materion cynllunio.

3.5.3.15.3 darparu’r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

3.5.3.15.4 rheoli cyfraniad y staff i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwaith rhanbarthol, gwaith proffesiynol a threfniadau gweithio partneriaethol eraill.

3.5.3.15.5 yr holl swyddogaethau sy’n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref a rheoli adeiladu yn unol â darpariaethau’r Deddfau canlynol:

• Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,

• Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,

• Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,

• Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1961,

• Deddf yr Amgylchedd 1995,

• Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991,

• Deddf Iawndal Tir 1961,

• Deddf Adeiladu 1984.

Sylwer: Dan y darpariaethau uchod, mae pob penderfyniad ar gais cynllunio, ac eithrio’r canlynol, yn cael ei ddirprwyo i Swyddogion:

(i) ceisiadau yr ystyrir eu bod yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu lle mae argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig.

(ii) ceisiadau y ceir Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd gyda hwy,

(iii) ceisiadau a gyflwynir gan y Cyngor Sir neu ar ei ran neu sy'n ymwneud â thir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir,

(iv) ceisiadau am ganiatâd i godi llinellau trydan sy'n cludo 132 kV neu fwy,

(v) ceisiadau pan fo'r Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoli Datblygu cyn dyddiad penodol yn gofyn am drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wneud penderfyniad arno.

Ni fydd yr hawl a roddir dan y paragraff hwn yn ymwneud ag unrhyw gais cynllunio y tybio'r Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio, neu rywun arall ar ei ran, ei fod yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu onid yw'r cais un ai:

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu pump neu ragor o anheddau newydd, neu

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu yn uniongyrchol bump neu ragor o swyddi newydd.

(vi) ceisiadau yn cynnwys ceisiadau Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon a gyflwynir gan Aelodau'r Cyngor neu Swyddogion y Cyngor a allai gael eu gweld fel bod yn rhan o brosesu ac/neu o benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. staff a gyflogir yn y Gwasanaeth Cynllunio, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion eraill sy'n rhan reolaidd o'r system gynllunio - e.e. priffyrdd a draenio, cyfreithiol, iechyd yr amgylchedd, swyddogion tai, datblygu economaidd neu berthnasau agos (gwŷr/gwragedd/partneriaid, rhieni, plant, brodyr a chwiorydd) neu gyfaill agos cynghorydd cyfredol neu swyddog o'r fath).

Ni fydd darpariaethau'r paragraff hwn yn berthnasol i geisiadau o'r fath yr ystyrir eu bod yn groes i bolisi. Bydd y ceisiadau hynny sy'n tynnu'n groes yn cael eu gwrthod gan swyddogion yn unol â'u pwerau dirprwyedig a byddant wedyn yn destun adroddiad ysgrifenedig llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i sicrhau atebolrwydd a thryloywder y penderfyniad a wnaethpwyd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno caniatáu cais sy'n tynnu'n groes, yna mae'n rhaid i'r Pwyllgor roi'r caniatâd hwnnw."

**ATODIAD**

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Cynllunio**

**Cynnwys**


**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu'r cynllun datblygu~~4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu~~**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**


PL-16971-RWJ/182231

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

**4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad**

PL-16971-RWJ/182231

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. O'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall Cynghorydd lleol (sef unrhyw un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw'r cais cynllunio i mewn dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod y penderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod ypenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod rhaid i'r rhai

sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath~~4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath~~

4.6.2.1.1 ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
4.6.2.1.2 anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio
4.6.2.1.3 gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

**Formatted:** No bullets or numbering, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

**Formatted:** Indent: Left: 0.5 cm, Hanging: 0.75 cm, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunio ar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd. ~~4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.~~

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.~~4.6.2.6Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neumewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.~~

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

PL-16971-RWJ/182231

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff Cynghorydd – p'un a ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor ai peidio - gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. ~~Pan fo hynny'n digwydd, mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.~~

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor

4.6.4.1.1~~(i)~~ Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

4.6.4.1.2~~(ii)~~ Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

4.6.4.1.3~~(iii)~~ Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grŵ~~w~~p nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

4.6.4.1.4~~(iv)~~ Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 ~~Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor~~

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni ddylai'r Cygnhorwyr rheini adael i'w hunain gael eu lobïo. Ni ddylai Cynghorwyr - p'un a ydynt ar y Pwyllgor ai peidio - lobïo Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor. ~~Ni ddylai~~

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

PL-16971-RWJ/182231

~~ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gydag un o'u Cynghorwyr lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.~~

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

~~(~~4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau I sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. unrhyw un o'r Cynghorwyr y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu ward.

~~(~~4.6.4.3.2~~)~~ Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hun lobïo, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

~~(~~4.6.4.3.3~~.)~~ Os oes cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd arall sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol. ,

~~(~~4.6.4.3.4~~.iv)~~ Ni all y Cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol ~~–~~ p'~~a~~ un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirio unrhyw lobïwr at gynghorydd arall sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfon i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyr lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

4.6.5 **TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr nad ydynt~~sydd heb fod~~ ar y Pwyllgor eistedd hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y

Pwyllgor — p'a un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siarad â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo.

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys cynghorydd lleol):

- sydd wedi cael ei lobïo, neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned , neu
- unrhyw gynghorydd sy'n cynrychioli ward arall fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3.3(iii)(2).

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniad a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

## 4.6.6 CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath, dylai Cynghorwyr fod yn wyliadwrus wrth ddatgan eu barn ar rinweddau'r bwriad. Fe allent ddatgan rhagdueddiad ond ni ddylent fynegi unrhyw beth a all gael ei ddehongli un ai fel rhagbenderfyniad neu ragfarn o blaid neu yn erbyn y bwriad. Awgrymir y dylai Cynghorwyr sydd eisiau gwneud sylw egluro'n glir fod eu barn yn un amodol, yn seiliedig ar eu gwybodaeth ar y pryd ac y bydd angen iddynt ystyried y mater o'r newydd ac yng ngoleuni'r holl faterion perthnasol pan yn gwneud penderfyniad ar y cais. Mewn achos lle mae Cynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor yn

PL-16971-RWJ/182231

dangos ei fod wedi cau ei feddwl i gais penodol (h.y. eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw) neu fod ganddynt ragfarn am y bwriad, yna mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad.4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:-
**un ai :**

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ôl y ddarpariaeth yn y Rheolau yma ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (a, gorau oll, peidio â bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor.

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant gymryd rhan ynddynt.

4.6.7.1 Nid oes unrhyw egwyggor mewn cyfraith i wahardd Cynghorydd sydd wedi cymryd rhan mewn mater cynllunio mewn Cyngor Tref neu Gymuned rhag cymryd rhan yn y mater fel aelod o'r Pwylgor Cynllunio **ar yr amod nad yw'r cynghorydd wedi penderfynu ymlaen llaw neu ddangos rhagfarn ar y cais.**

4.6.7.2 Mae hawl gan Gynghorwyr i ddangos rhagdueddiad ar fater ond mae'n rhaid iddynt sicrhau nad ydynt wedi rhagbenderfynu'r mater (h.y. nad ydynt wedi cau eu meddyliau i rinweddau'r bwriad). Yn syml, mae Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio yn cael rhoi arwydd yn gyhoeddus o'u barn am unrhyw gais cyn y gelwir arnynt i wneud penderfyniad arno ond mae'n rhaid i'w sylwadau gael eu geirio'n rhesymol ac mae'n rhaid iddynt gydnabod nad ydynt wedi cau eu meddyliau i benderfynu ar y cais yn y dyfodol ar ei rinweddau.

4.6.7.3 Awgrymir yn gryf bod unrhyw Gynghorydd sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n teimlo bod rhaid iddynt wneud datganiad cyhoeddus ar gais cyn i'r cais hwnnw ddod gerbron y Pwyllgor, yn datgan bod eu barn yn un amodol; yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt ar y pryd; ac y bydd yn rhaid iddynt ystyried y mater o'r newydd ar sail pob ystyriaeth berthnasol i'r cais pan ddaw'r amser i wneud penderfyniad ar y cais (gweler hefyd 4.6.6.2 uchod).

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

PL-16971-RWJ/182231

Formatted: Font: Not Bold

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n delio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n

gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

4.6.11 **ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

4.6.12 **PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

~~(~~4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

~~(~~4.6.14.1.2~~)~~ Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

~~(~~4.6.12.1.3~~)~~ Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

~~(~~4.6.12.1.4~~)~~ Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

~~(~~4.6.12.1.5~~)~~ Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr, bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **ANRHEGION A LLETYGARWCH**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefino. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

4.6.19.1.1 Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

(i) Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu';
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r Gwasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall, gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

- (iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

  Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.**2Ni ddylid** ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.

PL-16971-RWJ/182231

- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

4.6.19.2.2 Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto, bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1 Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadau.

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3~~)~~ Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

PL-16971-RWJ/182231

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

4.6.19.4.1~~(i)~~ Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

4.6.19.4.2~~(ii)~~ Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1.1 ~~(i)~~ ~~B~~ydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

4.6.20.1.2 ~~(ii)~~ ~~P~~an fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1 llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem, bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3) Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7)Pan fo raid i swyddogion ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd, yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9)

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog, yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer. ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i’r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy’n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy’n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy’n byw yn ymyl safle’r cais.

Yr amser a ganiateirFaint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan y siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi’i gyflwyno i’r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwyd i’r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae’r drefn lle mae aelodau’r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwaith a Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **Pwyllgor Gwaith 04.11.13**<br>**Cyngor Llawn 04.12.13** |
| **Pwnc** | **Ystyried os dylid gwneud y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio (Rhan 4.6 y Cyfansoddiad) yn rhai parhaol** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Cynghorydd John Arwel Roberts** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Robyn Jones (est 2134)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

1.1 Ystyried os y dylid gwneud y newidiadau i'r Cyfansoddiad, rhan 4.6: Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio, yn rhai parhaol wedi i'r ail gyfnod arbrofol o 12 mis ddod i ben.

1.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau a gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad ynghylch a ddylid eu gwneud yn barhaol ai peidio.

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

2.1 Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2011, gwnaeth y Bwrdd Comisiynwyr newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio (y Rheolau) yn dilyn cyfnod sylweddol o ymgynghori gydag amrediad o gydranddeiliaid.

2.2 Yn gyffredinol, roedd tair elfen i'r newidiadau:

2.2.1 Cyfyngu aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gymryd rhan dim ond os oeddent wedi bod yn yr holl gyfarfodydd blaenorol ar yr eitem honno (gan gynnwys unrhyw ymweliadau safle swyddogol).

2.2.2 Rhwystro aelod lleol ar y Pwyllgor rhag pleidleisio, cynnig neu eilio cais yn eu ward, a

2.2.3 Rhoddi eglurhad ar y ceisiadau hynny gan swyddogion a chan berthnasau aelodau a swyddogion y dylid eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad.

2.3 Mae'r newidiadau a'r rhesymau amdanynt wedi cael eu nodi yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Ynddo, gwelir yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ym mis Mehefin 2011 ynghyd â'r rhesymeg am y newidiadau a'r rhesymau am eu gweithredu.

2.4 Cododd yr adolygiad o'r Rheolau'n wreiddiol fel rhan o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ac argymhellion a wnaed i'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynllun Gweithredu'r gwasanaeth mewn ymateb i hynny.

2.5 Dan y Cyfarwyddyd Gweinidogaethol a oedd mewn grym bryd hynny, neilltuwyd y cyfrifoldeb am newid y Cyfansoddiad i'r Gweinidog. Gwnaeth y newidiadau angenrheidiol drwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor dyddiedig 20 Tachwedd 2011. Yna, daeth y newidiadau i rym ac maent wedi bod yn weithredol ers hynny.

2.6 Gwnaed y newidiadau am gyfnod arbrofol o 12 mis yn gyntaf ac fe'u hadnewyddwyd ym mis Rhagfyr 2012 am gyfnod arbrofol pellach o 12 mis er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau o ran ffurfio Cyngor newydd gyda llai o Gynghorwyr ar y Pwyllgor. Mae'r ail gyfnod arbrofol bron â dod i ben.

2.7 Mae'r mater yn cael ei ailgyflwyno i aelodau am benderfyniad os y dylid gwneud y newidiadau'n rhai parhaol.

**B – Ystyriaethau**

3.1 Nodir y rhesymau am y newidiadau yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Ym marn y Swyddogion, pery'r ystyriaethau hyn i fod yn rhai perthnasol.

3.2 Yn ymarferol, nid yw swyddogion yn ymwybodol fod y newidiadau i'r Rheolau wedi achosi unrhyw broblemau sylweddol o ran gwneud penderfyniadau.

3.3 Mae'r Rheolau newydd ynghylch ceisiadau 'aelodau' a 'swyddogion' wedi cael eu gweithredu heb unrhyw broblemau. Mae'r newidiadau hyn yn welliant ar y fersiwn flaenorol oherwydd maent yn rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder ynglŷn â cheisiadau pwy sy'n gorfod mynd i'r Pwyllgor am benderfyniad. Ym marn y Swyddogion, dylid gwneud y newid hwn yn un parhaol.

3.4 O ran y newidiadau yn y rheolau sy'n cael effaith ar aelodau'r Pwyllgor, gellir nodi'r canlynol:

3.4.1 Gweithredwyd yr ail gyfnod arbrofol oherwydd pryderon y byddai'r Pwyllgor dan y Cyngor newydd yn llai (i lawr o 14 i 11 o aelodau) a bod perygl na fyddai ynddo gworwm oherwydd y cyfyngiadau. Nid yw hyn wedi digwydd yn ymarferol er mai nifer fechan o aelodau'r Pwyllgor sydd wedi bod yn bresennol i gymryd rhan yn y drafodaeth ar rai eitemau a phleidleisio arnynt. Mae tystiolaeth anecdotaidd fod hyn wedi codi cwestiynau neu bryderon ymysg aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd.

3.5.2 Yn ystod haf 2013, cyhoeddodd RTPI Cymru adroddiad a gwnaeth argymhellion ynghylch gweithrediad pwyllgorau cynllunio yng Nghymru ("Study into the Operation of

Planning Committees in Wales”). O ran y newidiadau penodol hyn, argymhellodd:

3.5.2.1 Nid oes rhaid i’r Pwyllgor cyfan ymweld â safleoedd ac ni ddylai methiant i ymweld â safleoedd wahardd yr aelodau hynny nad oeddynt ar yr ymweliad safle rhag cymryd rhan yn y mater yn y Pwyllgor;

3.5.2.2 Ni wnaed unrhyw argymhelliad penodol mewn perthynas â gwahardd aelodau lleol ar y Pwyllgor rhag pleidleisio ar fater yn eu ward ond nodwyd y gwahaniaeth mewn swyddogaeth pan maent yn gweithredu fel aelodau o’r Pwyllgor ac yn gweithredu fel aelodau lleol.

3.5.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno Mesur Ad-drefnu Cynllunio ar gyfer Cymru yn 2014 gyda Mesur drafft yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2013 a chyfnod o ymgynghori i ddilyn. Er nad oes unrhyw fanylion ar gael ar hyn o bryd, mae’n debygol y bydd darpariaethau i sefydlu gwell safoni o ran prosesau a gweithdrefnau ar draws Cymru. Gall hyn gynnwys safoni’r prosesau ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllun gan bwyllgorau a gallai gynnwys materion megis y rheini sy’n destun yr adroddiad hwn a rhai materion y rhoddir sylw iddynt yn adroddiad RTPI Cymru.

3.6 Mae Swyddogion o’r farn bod y rhesymau a roddwyd dros wneud y newidiadau fel y cawsant eu nodi yn yr argymhelliad i’r Bwrdd Comisiynwyr a’r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2012 yn parhau i fod yn rhai cadarn a synhwyrol. Efallai y bydd yr Aelodau eisiau ystyried yr opsiwn o wneud y newidiadau hyn yn rhai parhaol neu ymestyn y cyfnod arbrofi am flwyddyn arall hyd oni ddaw’r newidiadau deddfwriaethol i rym yn 2014.

3.7 Ym marn y swyddogion, mae’r newidiadau:

3.7.1 Yn sicrhau fod trefn gwneud penderfyniadau’r Pwyllgor yn fwy eglur, tryloyw a phendant. Maent o gymorth i amddiffyn y broses gwneud penderfyniadau rhag canfyddiad cyhoeddus anffafriol.
3.7.2 O fudd i aelodau’r Pwyllgor oherwydd rhydd iddynt ddiogelwch o ran eu cyfranogiad i’r broses gwneud penderfyniadau.
3.7.3 O fudd i Swyddogion Cynllunio oherwydd rhydd iddynt sicrwydd ynglŷn â’r “ceisiadau gan ‘aelodau’ a swyddogion’” y mae’n rhaid i’r Pwyllgor Cynllunio eu hystyried.

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim sylwadau wedi dod i law |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae ymgynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor yn gydawdur yr adroddiad ac mae’n mynegi’r farn gyfreithiol ynddo |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Dim yn berthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd darparu eglurder, tryloywder a sicrwydd o ran y broses gwneud penderfyniadau o gymorth i sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Ymgynghorwyd yn eang ar y cynigion gwreiddiol fel y manylion ar hynny yn yr Atodiad |
| 10 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

| CH – Crynodeb |
|---|
| 4.1 Cododd y newidiadau hyn o Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol o'r Gwasanaeth Cynllunio; yr angen i sefydlu gweithdrefn gadarn i ddiogelu aelodau a swyddogion sy'n rhan o'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ac i ddiogelu'r system rhag canfyddiad cyhoeddus anffafriol. |

4.2 Gwnaed y newidiadau gan y Gweinidog am gyfnod arbrofol o 12 mis yn 2011 ac fe'u hadnewyddwyd gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2012 am gyfnod arbrofol pellach o 12 mis. Mae'r ail gyfnod arbrofol hwnnw bron â dod i ben a gofynnir i'r Cyngor ystyried gwneud y newidiadau hyn yn rhai parhaol.

4.4 Nid yw profiadau ymarferol yn ystod y cyfnod arbrofol wedi arwain at dystiolaeth nad yw'r newidiadau'n gweithio nac ychwaith eu bod wed llesteirio proses benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.

## D – Argymhelliad

5.1 Dyma'r argymhellion:

I'r Pwyllgor Gwaith:
5.2 Gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn ynghylch a ddylid gwneud y newidiadau'n rhai parhaol. Mae swyddogion yn argymell gwneud y newidiadau oll yn barhaol.

I'r Cyngor llawn:
5.3 Ystyried a ddylid gwneud y penderfyniadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn rhai parhaol fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Mehefin 2011 (yr Atodiad i'r adroddiad hwn) – mae swyddogion yn argymell gwneud y newidiadau oll yn barhaol, a

5.4 Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) y grym i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i weithredu ar benderfyniad y Cyngor.

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W Jones**
**Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 21 Hydref 2013**

## Atodiadau:

Copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Mehefin 2011 ynghyd â'r papurau amgaeedig.

## Papurau Cefndir:

Adroddiadau a phapurau eraill a gyflwynwyd i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor a'i bwyllgorau yn ystod y broses o adolygu'r Rheolau.
RTPI Cymru – Study into the Operation of Planning Committees in Wales.
http://www.rtpi.org.uk/the-rtpi-near-you/rtpi-cymru/policy-in-wales/wales-legislative-programme/study-into-the-operation-of-planning-committees-in-wales

ATODIAD

RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I | CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR |
| DYDDIAD | 20 MEHEFIN 2011 |
| PWNC | ADOLYGU'R RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO |
| DEILYDD(ION) PORTFFOLIO | ALEX ALDRIDGE<br>MICK GIANNASI |
| SWYDDOG(ION) ARWEINIOL | PRIF WEITHREDWR DROS DRO<br>CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL<br>PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD) |
| SWYDDOG CYSWLLT | Robyn Jones (Rhif Ffôn : 01248 752134) |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐

Gweithredol……….…. ☒

Strategol………………. ☐

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

Cael argymhelliad gan y Comisiynwyr. Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau yn golygu newid i'r Cyfansoddiad i'w wneud gan y Gweinidog. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn am sylwadau.

**3. Crynodeb o'r adroddiad**

Newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol (ALIC) i faterion cynllunio gan SAC a PwC yn 2009. Roedd yr adolygiad yn rhan o Gynllun Gwella'r Adran Gynllunio yn 2010-11.

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau**

Argymhelliad :

Bod y Comisiynwyr yn gwneud argymhelliad ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau:

(i) Pa geisiadau gan aelodau, swyddogion a'u perthnasau ddylai gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor am benderfyniad yn hytrach na derbyn sylw gan y swyddogion.

(ii) Ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae hyn yn cynnwys bod yn bresennol ar unrhyw ymweliad safle swyddogol. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais neu unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais.

(iii) Ni fedr aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio sy'n cynrychioli'r ward y mae safle datblygu wedi'i leoli ynddi bleidleisio na gynnig nac eilio argymhelliad ar gais o'r fath.

Rhesymau :

Rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan SAC a PwC yn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 fel y cawsant eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Cynllunio .

Newidiadau i dynhau ac egluro geiriad y Rheolau a chydymffurfio gydag arferion gorau.

Rhoi sylw i bryderon posibl ynghylch y canfyddiad y gallai cynghorydd lleol fod â rhan yn y broses o wneud penderfyniad fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

Sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'r holl ystyriaethau blaenorol sy'n berthnasol i gais cyn gwneud penderfyniad.

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Gwrthodwyd yr opsiwn o beidio â gwneud newidiadau oherwydd byddai hynny'n fethiant i roi sylw i'r argymhellion yn ALlC 2009.

| 6. Ymgynghori | | | |
|---|---|---|---|
| 6.1 Cyllid/Adran 151…….............................. | ☒ do……… | ☐ naddo | |
| 6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro…………..... | ☒ do……… | ☐ naddo | |
| 6.3 Adnoddau Dynol……………............................ | ☐ do……… | ☐ naddo……. | ☒ amherth |
| 6.4 Gwasanaethau Eiddo…………………...... | ☐ do……… | ☐ naddo……. | ☒ amherth |
| 6.5 Uned Gyfathrebu…….............................. | ☐ do……… | ☒ naddo | |

6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau):

**7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi**

Dim

**8. Materion Amgylcheddol**

A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:

1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006* …………☐ do……. ☒ naddo ….☐ amherth

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000** ……..☐ do…….☒ naddo …. ☐ amherth

(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)
(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)
Nodiadau

**9. Papurau cefndirol**

Cynllun Gwella ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR |
| DYDDIAD: | 20 MEHEFIN 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | ADOLYGU RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO |
| ADRODDIAD GAN: | PRIF WEITHREDWR DROS DRO<br>CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL / SWYDDOG MONITRO A'R PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD) |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | YSTYRIED MABWYSIADU'R NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU |

## 1. <u>Rhagarweiniad</u>

1.1 Yn eu cyfarfod ar 26 Ebrill, rhoes y Comisiynwr sylw i fabwysiadu rheolau gweithdrefn mewn perthynas â rhan Cynghorwyr yn y broses gwneud penderfyniadau.

1.2 Ystyriodd y Comisiynwyr ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori yn y Cyngor, cyd-destun y canfyddiadau mewn perthynas â materion cynllunio a'r sefyllfa unigryw o ran Ymyrraeth y Gweinidog ym Môn i fynd i'r afael â llywodraethu corfforaethol er mwyn adfer hyder y cyhoedd yn y broses gwneud penderfyniadau. Hefyd, cymerodd y Comisiynwyr i ystyriaeth sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru a PwC (archwilwyr allanol) y dylai'r Cyngor adolygu ei brosesau cynllunio. Derbyniwyd argymhellion y swyddog statudol i'r Comisiynwyr fel rhai derbyniol ym mhob un o'r amgylchiadau ac roedd y Comisiynwyr o'r farn eu bod yn dymuno gwneud i ffwrdd ag unrhyw ganfyddiad o fethiant o ran delio gyda gwrthdrawiad diddordeb ar lefel Cynghorwyr a Swyddogion tra'n derbyn nad yw'r canfyddiad bob amser yn adlewyrchiad o realiti.

1.3 Cyflwynwyd i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 12 Mai, yr adroddiad dyddiedig 26 Ebrill a phenderfynwyd cyfeirio'r mater hwn yn ôl i'r Comisiynwyr gydag argymhelliad y dylent ailystyried y mater gan gadw mewn cof y newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i Bwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yr Awdurdod hwn.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r broses a ddilynwyd wrth i'r Comisiynwyr ystyried cais y Cyngor a dod i benderfyniad ar y mater sy'n ymwneud â Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio ("y Rheolau"), sydd i'w gweld yn rhan 4.6 y Cyfansoddiad.

1.5 Yr argymhelliad blaenorol i'r Comisiynwyr oedd iddynt argymell cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau am gyfnod arbrofol o 12 mis, cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn ar gyfer sylwadau ac yna ei gyflwyno i'r Gweinidog ar gyfer newid y Cyfansoddiad. Rhaid i'r Comisiynwyr felly gymryd yr holl faterion hyn i ystyriaeth a gwneud penderfyniad ar y mater.

## 2. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol SAC / PwC 2009

2.1 Cyfyd y cynigion o amryfal argymhellion gan Archwilwyr ac yn benodol, yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ar gynllunio a gynhaliwyd gan SAC a PwC ym mis Rhagfyr 2009.

2.2 Cynhaliodd SAC a PwC yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol penodol o faterion cynllunio yn 2009 (fel rhan o'r ALIC ehangach) ac o ganlyniad i rai ymatebion i ymgynghori cyhoeddus fel rhan o'r ALIC ehangach. Yn adroddiad SAC / PwC, awgrymwyd y dylid adolygu'r Rheolau er mwyn cynorthwyo i sefydlu'n glir ac yn syml swyddogaethau aelodau a swyddogion sy'n rhan o'r broses gynllunio a'r hyn a ddisgwylir ohonynt gan gynnwys rôl aelodau'r Pwyllgor a'r cydbwysedd rhwng ei swyddogaeth fel aelod ward ac fel aelod o'r Pwyllgor.

## 3. Yr Adolygiad

3.1 Cafodd y dasg o adolygu'r rheolau ei hymgorffori yng "Nghynllun Gwella'r Broses o wneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11" ac ymgymerwyd â'r dasg benodol gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfreithiwr Cynllunio'r Cyngor.

3.2 Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) ym mis Tachwedd 2010. Mae canlyniad yr adolygiad o ran y newidiadau a awgrymwyd i'r Rheolau wedi ei nodi yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae yna dri newid mawr: mae dau yn ymwneud â chyfyngiadau ar aelodau'r Pwyllgor ac mae'r trydydd yn egluro'r Rheolau mewn perthynas â'r ceisiadau hynny gan aelodau a swyddogion y mae'n rhaid iddynt fynd gerbron y Pwyllgor ar gyfer penderfyniad.

## 4. Ymgynghori

4.1 Ymgynghorwyd yn sylweddol ac yn eang ar y newidiadau arfaethedig.

4.2 Pwyllgor Safonau. Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Safonau ar y newidiadau arfaethedig yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2010. Mae ymateb y Pwyllgor eisoes wedi cael cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau blaenorol.

4.3 Aelodau Etholedig. Ymgynghorwyd gyda'r holl aelodau etholedig ar y newidiadau arfaethedig a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion oedd 31 Ionawr 2011. Derbyniwyd tri o ymatebion; roedd dau yn cefnogi'r holl newidiadau a'r llall yn cefnogi dau o'r newidiadau ac yn gofyn cwestiwn am y trydydd.

4.4 Y Pwyllgor Cynllunio. Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Cynllunio ar 2 Chwefror 2011 a phenderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad ond heb fynegi barn oherwydd bod rhyddid i bob aelod ystyried y mater yn y Cyngor llawn.

4.5 Y Pwyllgor Gwaith ar y pryd. Cyflwynwyd adroddiad ar y mater i'r Pwyllgor Gwaith ar y pryd i bwrpas ymgynghori oherwydd byddai unrhyw newidiadau i'r Rheolau yn

newid i'r Cyfansoddiad.  Yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar y pryd gefnogi'r tri phrif newid.

4.6 Arweinyddion Grŵp. Ymgynghorwyd gyda'r Arweinyddion Grŵp yn eu cyfarfod ar 2 Mawrth 2011.

4.7 Cyngor Llawn. Adroddwyd ar y mater i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2011. Penderfynodd y Cyngor llawn ohirio'r mater hyd nes ei gyfarfod arferol nesaf ond yn y cyfamser, gofynnwyd i'r swyddogion wneud ymholiadau ynglŷn â'r drefn mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Gwnaed hynny ac adroddir arno isod.

4.8 Cynghorau Eraill. Ymgynghorwyd gyda swyddogion monitro a phrif swyddogion cynllunio (neu swyddogion cyfatebol) y 21 prif Gyngor arall yng Nghymru ar y ddau newid mawr sy'n ymwneud ag aelodau'r Pwyllgor.

4.8.1 O'r ymatebion a dderbyniwyd, dim ond un prif Gyngor arall yng Nghymru (sef Sir Gâr) sy'n cyfyngu cyfranogiad yn y Pwyllgor Cynllunio i ddim ond yr aelodau hynny a fu ar yr ymweliad safle swyddogol mewn perthynas â chais. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl, mae'r drefn yn amrywio ledled Cymru. Mae gan rai Cynghorau Is-Bwyllgorau Ymweliadau Safle, mae gan eraill Banelau Ymweliadau Safleoedd ac mae gan rai Is-Bwyllgorau neu Banelau Ymweliadau Safleoedd a chanddynt bwerau dirprwyol i wneud penderfyniadau ar geisiadau.

4.8.2 O'r ymatebion a dderbyniwyd, dim ond Cyngor Gwynedd sydd â Rheol sy'n gwahardd aelod lleol sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio rhag pleidleisio ar gais yn ei ward.

4.9 Mae cyngor a gafwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn pwysleisio pwysigrwydd rôl Cynghorydd ward yn y broses datblygu ar yr amod bod diogelwch digonol yn ei le i osgoi cyhuddiadau bod penderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw.

Bydd y newidiadau y penderfynwyd arnynt gan y Comisiynwyr ym Môn yn gwarchod hawliau aelodau lleol i siarad yn y Pwyllgor ac o'r herwydd, mae cyfranogiad Cynghorwyr yn cael ei warchod gyda diogelwch hefyd i osgoi unrhyw ganfyddiad bod penderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw.

Er bod y Comisiynwyr yn ymwybodol o'r ffaith nad oes yr un awdurdod lleol arall yng Nghymru ac eithrio Sir Gâr a Gwynedd yn ymarfer y trefniadau hyn, roedd y Comisiynwyr o'r farn, oherwydd yr amgylchiadau presennol ym Môn ac oherwydd bod system debyg yn gweithio yn Sir Gâr a Gwynedd, bod y cyngor statudol yn rhesymol o ran diogelu Cynghorwyr Môn rhag unrhyw ganfyddiad posibl o wrthdrawiad diddordeb.

## 5. Y Cynigion ynghylch Aelodau Lleol a Chymryd Rhan yn y Pwyllgor Cynllunio

5.1 Cynigir na chaiff aelodau sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n cynrychioli'r ward lle mae safle'r datblygiad bleidleisio na gwneud nac eilio argymhelliad ynghylch cais o'r fath (paragraff 4.6.4.3.3 y Rheolau).

5.1.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar yr "aelod lleol" sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae'r aelod lleol yn rhydd i siarad, i wneud neu i eilio argymhelliad ac i bleidleisio ar gais o'r fath. Gallai hyn arwain at y **canfyddiad cyhoeddus** (ond nid y realiti o angenrheidrwydd) bod yr aelod lleol efallai (pan fydd yn siarad, yn gwneud neu'n eilio argymhelliad ac/neu'n pleidleisio) yn gweithredu fel eiriolwr o blaid neu yn erbyn y cais oherwydd eu bod yn aelod lleol. Nid dyna fyddai'r rôl briodol i aelod o'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth led-weinyddol. **Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y risg o ganfyddiad o'r fath.**

**5.1.2 Nid yw'r newid yn cael effaith ar hawl yr aelod i siarad yn y Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel yr aelod lleol a gall y newid wella canfyddiad y cyhoedd o'r system gynllunio.**

5.2 Cynigir na chaiff aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ond gymryd rhan yn y drafodaeth ar geisiadau os ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol y Pwyllgor mewn perthynas â'r cais hwnnw. Mae hyn yn cynnwys bod yn bresennol mewn unrhyw ymweliad safle swyddogol (paragraffau 4.6.5.1 a 4.6.19.1.1(vi) y Rheolau). Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais neu unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais.

5.2.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Reolau sy'n dweud bod rhaid i aelod o'r Pwyllgor fod wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau blaenorol ar gais cyn y gallant gymryd rhan y tro nesaf y bydd y cais yn cael ei ystyried. Mae hyn yn wir yn achos ymweliadau safle swyddogol a hefyd yn gyffredinol.

**5.2.2 Mae ystyriaethau sylweddol blaenorol a'r ymweliad safle swyddogol yn arbennig yn sylfaen ar gyfer ystyriaethau ar y cais wedyn a dylai'r aelodau fod wedi cael cyfle i glywed a gweld yr holl drafodaethau ar gais cyn cymryd rhan mewn penderfynu ar y cais hwnnw. Gall y newid wella canfyddiad y cyhoedd o'r system gynllunio.**

## 6. <u>Casgliadau</u>

6.1 Cyflwynir y materion isod i'r Comisiynwyr fel rhai sy'n berthnasol wrth ystyried yr argymhellion:

6.1.1 <u>Hanes Cynllunio.</u> Cydnabyddir bod hanes cynllunio Ynys Môn yn pwyntio at yr angen i sicrhau osgoi unrhyw gyhoeddiadau o amhriodoldeb.

6.1.2 <u>Canfyddiad Cyhoeddus</u>. Bydd y Comisiynwyr eisiau ystyried amgylchiadau presennol y Cyngor a'r angen i fynd i'r afael ai'r canfyddiad gwael sydd gan y cyhoedd (nid o angenrheidrwydd y realiti) am y system gynllunio. Bydd y Comisiynwyr eisiau sicrhau bod gan y Cyngor y systemau gwarchod gorau a chadarnaf yn ei lle tra'n derbyn bod hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch canfyddiad cyhoeddus ac nid y realiti. Roedd y ffaith bod y Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Arbennig yn derbyn casgliadau'r Ombwdsmon ar gamweinyddu yn y maes cynllunio o ran camgymeriadau gan swyddogion yn gam ymlaen cadarnhaol i wella canfyddiad cyhoeddus.

6.1.3 Awdurdodau Lleol Eraill - Adroddiad SAC / PwC. Er nad yw Cynghorau eraill o bosibl yn mabwysiadu'r rheolau gweithdrefnol hyn, cafodd SAC a PwC achos penodol i gynnal adolygiad penodol o faterion cynllunio yn y Cyngor hwn fel rhan o Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 gan argymell y dylid adolygu'r Rheolau gyda'r nod o egluro swyddogaethau aelodau Pwyllgor sydd yn aelodau lleol ac yn aelodau o'r Pwyllgor.

6.1.4 Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio. Cafodd argymhellion SAC / PwC eu hymgorffori yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio a oedd yn gofyn am adolygiad o'r Rheolau, adolygiad nad oedd wedi ei gyfyngu i'r hyn a oedd yn cael ei weld fel arfer dda mewn Cynghorau eraill.

6.1.5 Mynd i'r afael â'r canfyddiad o wendidau. Mae'r ddau newid arfaethedig sy'n ymwneud ag aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylw i'r hyn a ganfyddir fel gwendid yn y modd y mae'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithio. Y rhain yw: peidio â bod yn bresennol mewn ystyriaethau blaenorol ar gais gan gynnwys ymweliadau swyddogol a safleoedd a risg y gellir ystyried bod aelod lleol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor yn gweithredu ac yn argymell ac yn pleidleisio fel eiriolwr o blaid neu yn erbyn cais yn eu ward.

6.1.6 Rhoi hwb i hyder y cyhoedd. Nod y newidiadau yw rhoi hwb i hyder y cyhoedd ym Môn a'r cyhoedd yn gyffredinol a chyfrannu at y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran materion llywodraethu corfforaethol yn gyffredinol yn y Cyngor drwy sefydlu proses gynllunio sy'n gwarchod hawliau aelodau wardiau i gyfrannu at y ddadl heb unrhyw ganfyddiad o wrthdrawiad diddordeb.

6.1.7 Ymgynghori. Ymgynghorwyd yn eang ar y cynigion o fewn y Cyngor ers dechrau'r flwyddyn.

6.1.8 Cyfnod Prawf. Cyflwynir y newidiadau arfaethedig am gyfnod prawf o 12 mis. Rhydd hyn y cyfle i adolygu effaith y newidiadau.

6.1.10 Diogelu Aelodau. Rhydd y newidiadau hyn rywfaint o ddiogelwch i aelodau mewn perthynas â chwynion neu her ynghylch mater sy'n ymwneud â'r aelod Pwyllgor – aelod ward. Gwarchodir hawliau'r aelodau i siarad fel aelodau ward yn y Pwyllgor.

6.1.11 Mae cefnogaeth aruthrol i gael eglurhad o'r rheolau ynghylch y ceisiadau hynny gan aelodau/swyddogion sy'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor.

6.1.12 Penderfyniad Blaenorol – Penderfynodd y Comisiynwyr gefnogi'r newidiadau yn eu cyfarfod ar 26 Ebrill.

## 7. **Argymhelliad**

7.1 Bod y Comisiynwyr yn ailddatgan ei benderfyniad i gefnogi cynllun prawf 12 mis ar gyfer:

7.1.1 Newidiadau i egluro'r Rheolau ynghylch ceisiadau gan aelodau / swyddogion a'u perthnasau a'u ffrindiau agos y dylid adrodd arnynt i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad,

7.1.2 Newidiadau i'r Rheolau:

7.1.2.1 Na ddylai aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio gael gwneud neu eilio argymhelliad na phleidleisio ar gais yn eu wardiau a

7.1.2.2 Na chaiff aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan ar gais yn y Pwyllgor os nad ydynt wedi bod yn bresennol pan gafodd y cais hwnnw ei ystyried yn sylweddol gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol sydd wedi digwydd.

7.1.3 Mân newidiadau eraill i'r Rheolau fel y maent wedi'u nodi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

7.2 Mae'r holl newidiadau i'r Rheolau i weithredu'r uchod wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i'r adroddiad hwn. Ymhellach, mae mân newidiadau wedi'u nodi yn y Rheolau a welir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

7.3 Yn unol â thelerau'r Gorchymyn Gweinidogol dyddiedig 16 Mawrth 2011, mae'r Comisiynwyr yn cymeradwyo cyflwyno'r newidiadau i'r Gweinidog gyda chais ei fod yn gwneud penderfyniad i newid y Cyfansoddiad fel sydd angen er mwyn gweithredu'r argymhellion ar gyfer cynllun prawf 12 mis.

**Richard Parry Jones**
**Prif Weithredwr**
**Pennaeth Statudol y Gwasanaethau Tâl**

__Papurau Cefndir__

Cynllun Gwella ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11.

**Yr Atodlen**

1. Argymhelliad 5.1.1

Newid rhan 4.6.10 y Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio I ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.10**CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gŵr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Rheolwr-gyfarwyddwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod. Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno ceisiadau, gymryd unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais

o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu paratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n dilyn mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

2. Argymhelliad 5.1.2.1

Newid paragraff 4.6.4.3.3 y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.4.3.3. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyfagos ac sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleol,

3. Argymhelliad 5.1.2.2

Newid paragraff 4.6.5.1 y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent gysylltu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur led-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo."

Bod rheol newydd sef 4.6.19.1.1(vi) yn cael ei hychwanegu at y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"(vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â'r safle a'i weld cyn gwneud penderfyniad ar y cais, yna, dim ond yr aelodau hynny a fu ar yr ymweliad safle swyddogol fedr gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais a phleidleisio arno pan fydd y Pwyllgor yn ei ystyried ymhellach."

## APPENDIX

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio**

**Cynnwys**

**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

#### 4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad

## 4.6.1 CYFLWYNIAD

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn ym mharagraff ....... – o'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall y Cynghorydd lleol (yr un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath at a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'weu trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod yei bpenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, yn arbennig gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylcheddeu lleoliadau. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg mewn unrhyw fodd.

## 4.6.2 PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio

- gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantau a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr ar sut i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth~~au~~ o'r fath :

- yn rhwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad arbennig, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu~~cysondeb ymhob cyngor ac ar sail y Cynllun Datblygu~~ ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- ~~Ar ben hynny bydd unrhyw gyngor~~ yn ddiduedd a'r, y gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

4.6.3.3 Ni chaiff~~ddylai~~ Cynghorydd gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. Pan fo hynny'n digwydd mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.

## 4.6.4 CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion.~~

(i) Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw~~sy'n ceisio pwyso arnynt~~, y gall~~bydd~~ hynny~~'n~~ eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u~~r~~ Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

(ii) Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth~~penderfyniad~~ ar y cais yn ddiweddarach.

(iii) Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grwp nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau~~nodiadau~~ hyn (4.6.5.2).

(iv) Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gyda'u~~r~~ Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

Formatted: Underline

Formatted: Underline

(4.6.4.3.1i) Mae gwahaniaethaueithriadau i'r rheolau lobïo sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward.

(4.6.4.3.2ii) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni chaiff fel unigolyn lobïo, nac yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

(4.6.4.3.3.iii) Os ydyw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond ni fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyfagos ac sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleolmae ganddo ddewis,

**un ai**

(1) rhoi gwybod i'r unigolyn sy'n ceisio ei lobïo y bydd fel Cynghorydd yn colli'r hawl i fod yn rhan o'r penderfyniad ar y cais os ydyw'n derbyn gwybodaeth gan y lobïwr neu'n trafod y cais gyda'r lobïwr, ond bydd yr Aelod â'r hawl i annerch y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn yr un modd â than yr amodau sy'n ymddangos yn 4.6.4.3 (ii),

**neu**

(2) gyrru'r unigolyn sy'n ceisio lobïo at Gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyffiniol ond heb fod ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac i bwrpas y rheolau hyn ystyrir bod Cynghorydd o'r fath yn Gynghorydd lleol.

Formatted: Font: Bold

Formatted: Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.27 cm

Formatted: Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.27 cm

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol, y cyfeirir atynt yn y rheolau hyn, gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol a'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol - pa un a ydynt yn aelodau ai peidioneu beidio o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion neu beidio. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai yrru unrhyw lobïwr at gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyffiniol ond heb fod ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac i bwrpas y rheolau hyn ystyrir bod cynghorydd o'r fath yn gynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu gyrru i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall y Cynghorydd sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorydd lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

4.6.5 **TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

"4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent gysylltu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo."

~~4.6.5.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio - ac ni ddylent gyfathrebu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.~~

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ (gan gynnwys yr cynghorydd lleol):

- -y pwyswyd arnynt, -neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned a hefyd bydd yn berthnasol i'r cynghorydd lleol, neu'r
- cynghorydd sy'n cynrychioli'r ward gyffiniol fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3(iii)(2).

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.71 cm + Indent at: 1.35 cm

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfynu a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

Formatted: Indent: Left: 1.35 cm, First line: 0 cm

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â~~a~~'r Atodiad sydd ynghlwm.

4.6.6 **CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU**

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd,

yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:-
**un ai** :

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ yn ôl y ddarpariaeth yn Rheol 5.4 ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu
~~**neu**~~

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (ac, o ddewis, peidio bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~.

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu~~dd~~ ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant chwarae rhan ynddynt.

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb ~~uniongyrchol~~ yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n d ddelio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Rheolwr-gyfarwyddwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.
Ni ddylai Cynghorwyr mewn gwasanaeth sy'n paratoi cynlluniau na rhai sy'n gweithredu'n gyffredinol ar ran pobl sy'n hyrwyddo mater cynllunio fod ag unrhyw ran yn y broses benderfynu ar y cynnig hwnnw. Yn yr un modd, os byddant yn cyflwyno cynnig eu hunain, ni ddylent fod ag unrhyw ran ym mhrosesu'r cais hwnnw na cheisio dylanwadu ar y penderfyniad terfynol ar y cais.

4.6.10.3 Bydd y Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Bydd y cynigion hynny yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w hystyried ac ni fyddant yn cael eu trin gan Swyddogion dan 'bwerau dirprwyol'. Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor

hwnnw fod y cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferolfel arfer ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylaiRhaid i SwyddogionSwyddogion sy'n ymwneud mewn unrhyw fodd â'r broses rheoli datblygugynllunio beidio â phbaratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n dilyn mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o bgymryd unrhyw ran ym mhrosesu'r cais hwnnw. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w hystyried ac ni fyddant yn cael eu trin gan Swyddogion dan "bwerau dirprwyol".

4.6.10.6 Ni chaiff Swyddogion sydd ddim yn ymwneud â'r broses gynllunio baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson neu gorff heblaw nhw eu hunain neu Aelodau agos o'u teuluoedd (h.y. priod, rhieni, teidiau a neiniau, plant, brodyr neu chwiorydd) ac, ymhob un o'r achosion hyn, rhaid iddynt hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio o'u cyfranogiad fel bod modd trosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a pheidio â chaniatáu i Swyddogion ei drin dan "bwerau dirprwyol".

Formatted: Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.87 cm, Tab stops: 1.27 cm, Left + 1.83 cm, Left

## 4.6.11 ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr egwyddor o gadw cofnodion da hefyd yn cael ei dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli DatblyguCynllunio yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

## 4.6.12 PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau

cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad .

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.~~Manylir yn adroddiad y Swyddog ar resymau'r Aelodau a nodir y materion cynllunio defnydd tir a godwyd.~~

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

(4.6.14.1.1i) Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

(4.6.14.1.2ii) Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

(4.6.12.1.3iii) Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

(4.6.12.1.4iv) Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

(4.6.12.1.5v) Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6vi) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **ANRHEGION A LLETYGARWCH**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion

sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cyflwyniadol. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'ŵ gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cyflwyniadol. Wedyn cyflwynir hyfforddiant diweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

(i) Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu'; ~~hefyd~~
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r G~~g~~wasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

(iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

Formatted: Indent: Left: 3.17 cm, No bullets or numbering

Formatted: Numbered + Level: 1 + Numbering Style: i, ii, iii, … + Start at: 2 + Alignment: Left + Aligned at: 3.81 cm + Indent at: 5.08 cm

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

- Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: Indent: Left: 3.17 cm, No bullets or numbering

4.6.19.1.2~~(ii)~~ Ni ddylid~~fydd angen~~ ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.
- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1~~(i)~~ Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoli Datblygu / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio~~ a Gorchmynion~~.

(ii) Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1~~(i)~~ Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw achos.

4.6.19.3.2~~(ii)~~ Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthynol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3~~(iii~~) Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4~~(iv)~~ Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5~~(v)~~ Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6~~(vi)~~ Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7~~(vii)~~ Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8~~(viii)~~ Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9~~(ix)~~ Bydd cynghorydd Lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10~~(x)~~ Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

(i) Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.
(ii) Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1 (i) Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Yr un pryd bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

(ii) Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u ~~hi~~ aelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1~~(i)~~ llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2~~(ii)~~ sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3~~(iii)~~ sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1~~(i)~~ Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2~~(ii)~~ Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i~~1~~) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii~~2~~) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii~~3~~) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv~~4~~) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1i) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2ii) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3iii) Yn gyntaf bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorydd lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorydd lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4iv) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5v) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6vi) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7vii)Pan fo raid i swyddog ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8viii)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9ix)

(i1)Ar ddiwedd y drafodaeth bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii2) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10x) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd pob cynghorydd (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

Faint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl i'r siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwyd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I benodi'r Deilydd Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Cynghorydd John Griffith i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru. |
| **3. GWNAED AR** | 15 Awst 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | Cyfarfod a Chyflogwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a'r Undebau Llafur perthnasol i drafod materion gweithlu sydd o bryder a diddordeb cyffredin. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r aelodau dan sylw a'r Prif Weithredwr. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 16 Awst 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 27 Awst 2013 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | I benodi'r Cynghorydd H.Eifion Jones, Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid i wasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Gyd Banel Penodi - Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru. |
| **3. GWNAED AR** | 15 Awst 2013 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | I adlewyrchu'r cyfrifoldebau portffolio newydd. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim. |
| **6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Gyda'r Aelod dan sylw. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw. |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 16 Awst 2013 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 27 Awst 2013 |